Cynllun Pensiwn Aelodau

# Adroddiad blynyddol a chyfrifon

1 Ebrill 2016 to 31 Mawrth 2017

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Gwasanaethau Ariannol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys ar ffurf Braille, fersiwn hawdd ei darllen, fersiwn print bras, fersiwn sain a chopi caled drwy gysylltu â ni:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ar-lein: **www.cynulliad.cymru**
E-bost: **cysylltu@cynulliad.cymru**
Ffôn: **0300 200 6565**

Rydym yn croesawu galwadau a wneir drwy wasanaeth Text Relay.

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynllun Pensiwn Aelodau

# Adroddiad blynyddol a chyfrifon

1 Ebrill 2016 to 31 Mawrth 2017

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Gwasanaethau Ariannol

# Cynnwys

Ymddiriedolwyr a chynghorwyr ........ 1

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr i aelodau Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru am y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017 ........ 3

Datblygiad ariannol y Cynllun ........ 6

Adolygiad actiwaraidd ........ 7

Adroddiad buddsoddi – ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017 ........ 12

Cefndir yr economi a'r farchnad – 12 mis tan 31 Mawrth 2017 ........ 14

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr am y Datganiadau Ariannol ........ 18

Datganiad llywodraethu ........ 20

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ........ 23

Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017 – y Gronfa ........ 24

Nodiadau sy'n cyd-fynd â'r Cyfrifon ........ 26

Datganiad yr Archwilydd Annibynnol ........ 36

Datganiad yr Actiwari yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2017 ........ 37

# Ymddiriedolwyr a chynghorwyr

Ar 6 Mai 2016, disodlwyd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr gan Fwrdd Pensiynau newydd.  Yn y tabl isod, dangosir aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 1 Ebrill 2016, hyd nes cawsant eu disodli.

| Rôl | Enw | Dyddiad Penodi | Dyddiad Diwedd |
|---|---|---|---|
| Cadeirydd | William Graham AC | 03 Mehefin 2009 | 5 Mai 2016 |
| Ymddiriedolwr | David Melding AC | 12 Hydref 2011 | 5 Mai 2016 |
| Ymddiriedolwr | Peter Black AC | 12 Hydref 2011 | 5 Mai 2016 |
| Ymddiriedolwr | Jocelyn Davies AC | 12 Hydref 2011 | 5 Mai 2016 |
| Ymddiriedolwr | Mike Hedges AC | 12 Hydref 2011 | 5 Mai 2016 |
| Ymddiriedolwr-Bensiynwr | Gareth Jones | 09 Mehefin 2010 | 5 Mai 2016 |

– Cadarnhaodd y Bwrdd Taliadau fel rhan o'i Benderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad, yn unol â Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013, y dylid sefydlu Bwrdd Pensiynau i ddisodli Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.  O 6 Mai 2016 ymlaen, yn unol ag adran 5 o reolau newydd y Cynullun a ddaeth i rym o'r dyddiad hwnnw ymlaen, penodwyd Bwrdd Pensiynau newydd yn lle Bwrdd yr Ymddiriedolwyr. Mae'r Bwrdd Pensiynau newydd yn cynnwys:

| Rôl | Enw | Dyddiad Penodi | Dyddiad Diwedd |
|---|---|---|---|
| Ymddiriedolwr Annibynnol (Cadeirydd) | Jill Youds | 6 Mai 2016 | |
| Ymddiriedolwr | Mike Hedges AC | 6 Mai 2016 | |
| Ymddiriedolwr | Gareth Jones | 6 Mai 2016 | |
| Ymddiriedolwr | Suzy Davies AC | 6 Gorffennaf 2016 | 22 Chwefror 2017 |
| Ymddiriedolwr | Nia Morgan | 4 Awst 2016 | |
| Ymddiriedolwr | Joyce Watson AC | 22 Chwefror 2017 | |

## Gweinyddu'r Cynllun

Ysgrifenyddiaeth y Cynllun, sy'n rhan o Wasanaethau Ariannol Comisiwn y Cynulliad, sy'n gweinyddu'r Cynllun o ddydd i ddydd. Dylid anfon unrhyw ymholiadau am bensiynau neu gais am unrhyw wybodaeth ychwanegol at yr Ysgrifenyddiaeth yn y cyfeiriad a ganlyn:

**Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Gwasanaethau Ariannol**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd CF99 1NA**

Ar y dyddiad y cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol Gweinyddwyr y Cynllun oedd:

| | |
|---|---|
| Donna Davies,<br>Ysgrifennydd y Cynllun | Rhif ffôn: 0300 200 6523 ac e-bost: **donna.davies@cynulliad.cymru** |
| Liz Calder<br>Ysgrifennydd Cynorthwyol | Rhif ffôn: 0300 200 6528 ac e-bost: **liz.calder@cynulliad.cymru** |
| Cynghorwyr y Cynllun a benodwyd gan yr Ymddiriedolwyr fel ar 31 Mawrth 2017 | |
| **Actiwari** | Martin Clarke o Adran Actiwari'r Llywodraeth |
| **Archwilydd** | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| **Bancwyr** | Banc Barclays ccc |
| **Rheolwr Buddsoddi** | Baillie Gifford Life Cyfyngedig |
| **Cynghorwr cyfreithiol** | Eversheds Sutherland LLP |
| **Cyfrifwyr y Cynllun** | Ysgrifenyddiaeth y Cynllun, Comisiwn y Cynulliad |
| **Ymgynghorydd Buddsoddi** | Adran Actiwari'r Llywodraeth, a ddisodlwyd gan Quantum Advisory Limited o 1 Ebrill 2017 ymlaen. |

Ni fu newidiadau i unrhyw benodiadau eraill ers y cyfnod blaenorol.

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr i aelodau Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru am y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017

## Cefndir deddfwriaethol Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynllun")

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y "Cynulliad") yn darparu cynllun budd-daliadau diffiniedig, a lywodraethir gan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Adran 20 (4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 11 i'r Ddeddf honno yn rhoi dilyniant i'r Cynllun. Nid yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi effeithio ar statws cyfreithiol y Cynllun.

Mae Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu budd-daliadau i Aelodau'r Cynulliad ac i Ddeiliaid Swyddi. Mae pob Aelod o'r Cynulliad yn aelodau o'r Cynllun o'r dyddiad y maent yn ymuno â'r Cynulliad, oni bai eu bod yn benodol yn dewis peidio â gwneud hynny.

Cyflwynwyd Cynllun Pensiwn Cyfartaledd Gyrfa (CARE) newydd ar 6 Mai 2016. Mae Aelodau a oedd yn 55 oed neu drosodd ar 1 Ebrill 2012 yn cael 'Diogelwch Trosiannol' ac yn parhau i gael eu budd-daliadau wedi'u cyfrifo ar sail cyflog terfynol am bum mlynedd arall tan 5 Mai 2021.

Y cyfraniad a wneir gan y Cynulliad ar hyn o bryd yw 15.6 y cant o gyflogau agregol yr Aelodau. Mae Aelodau nad ydynt yn cael 'Diogelwch Trosiannol' yn talu cyfraniadau ar gyfradd o 10.5 y cant. Mae'r Aelodau hynny sy'n cael 'Diogelwch Trosiannol' yn parhau i dalu cyfraniadau ar eu cyfradd bresennol o naill ai 6 y cant neu 10 y cant yn dibynnu a ydynt yn cronni budd-daliadau ar sail hanner canfed neu ddeugeinfed yn y drefn honno.

Y prif nodweddion yw:

– Bob blwyddyn, bydd yr aelodau yn cronni pensiwn o un rhan o hanner cant o'u cyflog am y flwyddyn honno.

– Caiff y pensiwn a gronnir bob blwyddyn ei ailbrisio yn unol â Gorchmynion y Trysorlys a wneir o dan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013, sydd, ar hyn o bryd, yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI).

– Mae budd-daliadau a gronnir yn y Cynllun Cyflog Terfynol yn cael eu diogelu'n llawn, a byddant yn parhau i fod yn gysylltiedig ag unrhyw gynnydd yn y dyfodol mewn cyflogau.

– Mae Deiliaid Swyddi yn ennill pensiwn CARE ychwanegol ar gyfer Deiliaid Swyddi, sef un rhan o hanner cant o'r cyflog y maent yn ei ennill bob blwyddyn fel Deiliaid Swyddi.

– Caiff yr Oed Ymddeol Arferol ei gysylltu ag Oed Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65 oed, pa un bynnag sydd uchaf). Bydd unrhyw bensiwn Cyflog Terfynol a gronnir cyn 6 Mai 2021 yn parhau i fod yn daladwy ar oed ymddeol arferol sef 65 mlwydd oed.

– Caiff pensiynau sy'n cael eu talu eu mynegrifo i'r newidiadau yn y Gorchymyn Cynyddu Pensiynau (Adolygu).

– Cyfandaliad marwolaeth mewn gwasanaeth cyfwerth â chyflog o ddwy flynedd ynghyd â darpariaeth ar gyfer mwy nag un enwebai.

## Newidiadau i Reolau

Bu dau newid i reolau yn ystod y cyfnod hwn er mwyn cywiro geiriad a allai fod wedi cael canlyniadau anfwriadol. O dan y rheolau newydd a ddaeth i rym ar 6 Mai 2016, o hyn ymlaen ni fydd angen i Ddeiliaid Swyddi yn y Cynllun CARE newydd sy'n dal swyddi cyn etholiad ac wedi hynny, ond nad ydynt yn derbyn cyflog Deiliad Swyddi yn ystod y diddymiad, dalu cyfraniadau Deiliaid Swyddi i'r Cynllun am y cyfnod pan nad oeddynt yn cael cyflog Deiliaid Swyddi. Hefyd, cafodd y diffiniad o wasanaeth yn y Cynllun CARE ei newid i nifer y diwrnodau a wasanaethwyd yn hytrach na misoedd cyfan. Mae hyn yn gyson â rheolau'r Cynllun Cyflog Terfynol.

## Trosglwyddiadau

Cafodd gwerth yr holl symiau a drosglwyddwyd i gynlluniau pensiwn eraill eu cyfrifo a'u gwirio gan Actiwari'r Cynllun yn unol â'r gofynion statudol. Wrth drosglwyddo symiau i'r cynllun, caiff credydau gwasanaeth eu cyfrifo'n unol â rheolau'r Cynllun a chanllawiau a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.

## Datblygiadau yn ystod y flwyddyn

Cadarnhaodd y Bwrdd Taliadau fel rhan o'i Benderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad, yn unol â Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013, y dylid sefydlu Bwrdd Pensiynau i ddisodli Bwrdd yr Ymddiriedolwyr. Mae'r Bwrdd Pensiynau newydd yn cynnwys:

– Dau gynrychiolydd a gaiff eu henwebu gan Aelodau'r Cynulliad.

– Dau gynrychiolydd a gaiff eu penodi gan Gomisiwn y Cynulliad.

– Ymddiriedolwr Annibynnol proffesiynol yn Gadeirydd.

Cafodd Mike Hedges AC a Gareth Jones (Aelod Cynulliad sydd wedi ymddeol), eu penodi'n gynrychiolwyr yr Aelodau ar y Bwrdd Pensiynau newydd. Roedd Mike a Gareth ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y Cynllun o'r blaen.

Cynrychiolwyr y Comisiwn oedd Suzy Davies AC a Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid y Comisiwn. Ar 22 Chwefror 2017, penodwyd Joyce Watson yn gynrychiolydd y Comisiwn yn lle Suzy Davies.

Cadeirydd Annibynnol proffesiynol y Bwrdd yw Jill Youds. Mae Jill hefyd yn cadeirio'r Bwrdd Pensiynau Barnwrol ac yn gwasanaethu ar fwrdd darparwr pensiwn cofrestru awtomatig y Llywodraeth, sef yr Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Cenedlaethol.

Ers ei ffurfio mae aelodau'r Bwrdd wedi cael hyfforddiant ar fuddsoddiadau'r Cynllun, mae Ymddiriedolwyr newydd wedi cael hyfforddiant ymgynefino a bydd yr holl Ymddiriedolwyr yn parhau i gael hyfforddiant i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rôl ac i fodloni gofynion y Rheoleiddiwr Pensiynau a Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013.

Cynhaliodd y Bwrdd adolygiad o'i gynghorydd buddsoddi gan na chawsai adolygiad o'r fath ei wneud ers tro. Credai'r Bwrdd y byddai adolygiad yn ei helpu i ystyried y cyngor sydd ei angen arno, a phenderfynu a fyddai darparwr amgen yn well ar gyfer yr anghenion hynny neu a ddylai Adran Actiwari'r Llywodraeth barhau i gynghori'r Bwrdd. Roedd gwerth am arian yn ystyriaeth bwysig yn yr adolygiad.

Cynhaliwyd proses gaffael, a chyfarfu'r panel dethol â chynrychiolwyr Quantum Advisory, Adran Actiwari'r Llywodraeth and JLT ar 20 Mawrth. Yn eu cyfarfod ar 27 Mawrth 2017, gofynnodd y Cadeirydd i'r Ymddiriedolwyr ystyried a fyddent yn fodlon derbyn argymhelliad y Panel Dethol i benodi

Quantum Advisory neu a oeddynt angen rhagor o amser i gymharu'r cynigion ac i fyfyrio ar argymhelliad y Panel. Cytunodd y Bwrdd yn unfrydol â'r argymhelliad a phenodwyd Quantum Advisory yn Gynghorydd Buddsoddi newydd i'r Cynllun o 1 Ebrill 2017 ymlaen, yn amodol ar gontract.

## Rheoli'r Cynllun

Ceir rhestr o'r Ymddiriedolwyr a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn ar dudalen 1.

## Cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr

Fel arfer, cynhelir cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr unwaith yn ystod pob un o sesiynau'r Cynulliad, ac weithiau cynhelir cyfarfodydd ychwanegol at ddibenion penodol. Cyfarfu'r Ymddiriedolwyr dair gwaith yn ystod y flwyddyn.

Caiff yr Ymddiriedolwyr weithredu'n ôl penderfyniad y mwyafrif sy'n bresennol mewn unrhyw gyfarfod o'r Ymddiriedolwyr lle ceir cworwm. Mae angen tri i gael cworwm mewn unrhyw gyfarfod o'r Ymddiriedolwyr, ac mae hynny'n cynnwys y Cadeirydd Annibynnol.

## Datrys Anghydfodau Mewnol

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi rhoi gweithdrefn Datrys Anghydfodau Mewnol ar waith yn unol â gofynion Deddf Pensiynau 1995. Mae manylion y weithdrefn ar gael gan Ysgrifenyddiaeth y Cynllun.

# Datblygiad ariannol y Cynllun

## Paratoi ac Archwilio'r Cyfrifon Blynyddol

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102 – y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon, a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol, ac â'r canllawiau a nodir yn y Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORP) ar Adroddiadau Ariannol Cyfrifon Cynllun Pensiwn, a adolygwyd ym mis Tachwedd 2015.

Caiff y cyfrifon hyn eu paratoi gan swyddogion y Cynulliad, ar ran yr Ymddiriedolwyr, a'u harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Maent yn cael eu paratoi a'u harchwilio o dan Adrannau 41 (1) a (6) o Ddeddf Pensiynau 1995 ac yn unol ag OS 1996/1975 y Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i dderbyn Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd).

Mae copïau o'r cyfrifon hyn ar gael gan yr Ysgrifenyddiaeth os gwneir cais amdanynt.

| | Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017 £ | Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 £ |
|---|---|---|
| **Incwm sy'n gysylltiedig ag aelodau** | 1,347,784 | 1,400,449 |
| **Taliadau sy'n gysylltiedig ag aelodau** | (2,073,905) | (821,093) |
| **Ychwanegiadau net o drafodiadau ag aelodau** | (726,121) | 579,356 |
| **Adenillion net ar fuddsoddiadau** | 4,770,414 | 61,397 |
| **Cynnydd / (gostyngiad) yn y gronfa** | 4,044,293 | 640,753 |
| **Asedau net ar ddechrau'r flwyddyn** | 29,668,998 | 29,028,245 |
| **Asedau net ar ddiwedd y flwyddyn** | 33,713,291 | 29,668,998 |

## Crynodeb o'r Wybodaeth Ariannol

Yr incwm yn ystod y cyfnod oedd £1,347,784 (2015-16 £1,400,449), a gwariant y Cynllun oedd £2,073,905 (2015-2016 £821,093). Asedau net y Cynllun ar 31 Mawrth 2017 oedd £33,713,291 (31 Mawrth 2016 £29,668,998).

Yn ystod y cyfnod, rhoddwyd cyfanswm o £501,524 o fuddsoddiad newydd i Reolwyr y Gronfa i'w fuddsoddi yn y Gronfa Bensiwn Twf Amrywiol a Chronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford. Cyfanswm gwerth y Gronfa ar y farchnad ar 31 Mawrth 2017 oedd £33,282,185 (31 Mawrth 2016 £28,010,662).

Ers 31 Mawrth 2017, nid oes gan y Cynllun arian yng nghyfrif cadw'r Trysorlys (31 Mawrth 2016 £323,276).

# Adolygiad actiwaraidd

## Datganiad yr Actiwari – yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2017

Caiff Cynllun Pensiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei eithrio o'r gofyniad yn Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Datgelu Gwybodaeth) 1996 i baratoi adroddiad a chyfrifon archwiliedig o fewn saith mis i ddiwedd y flwyddyn gyfrifo. Fodd bynnag, bwriad yr Ymddiriedolwyr yw cydymffurfio ag ethos y ddeddfwriaeth, ac yn hynny o beth, mae'r datganiad hwn wedi'i baratoi yn yr un modd â phe bai'r ddeddfwriaeth yn gymwys i'r Cynllun.

## Asesiad Actiwaraidd

Nid yw'r Datganiadau Ariannol a geir ar dudalennau 24 i 25 yn ystyried y rhwymedigaethau i ddarparu budd-daliadau pensiwn sy'n dod yn ddyledus ar ôl diwedd y flwyddyn. Caiff y rhwymedigaethau hyn eu hystyried gan Actiwari'r Cynllun, sy'n gwneud prisiad actiwaraidd o rwymedigaethau o'r fath bob tair blynedd. Mae'r prisiad hwn yn ystyried sefyllfa ariannu'r Cynllun a lefel y cyfraniadau sy'n daladwy.

Cynhaliwyd asesiad actiwaraidd ffurfiol o'r Cynllun gyda dyddiad gweithredol, sef 1 Ebrill 2014, a'r prif amcan oedd gwneud argymhelliad i Ymddiriedolwyr y Cynllun ynghylch pennu cyfradd briodol ar gyfer cyfraniad y cyflogwr ar ôl y dyddiad hwnnw. Er bod swm cyfraniadau'r aelodau wedi'i bennu yn y Rheolau, mae cyfradd cyfraniad y cyflogwr yn cael ei bennu fel canran y cyflog sydd ei hangen i dalu balans y gost gyda'r bwriad o sicrhau y telir am fudd-daliadau'r Cynllun yn ystod gwasanaeth gweithredol disgwyliedig yr aelod â Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Disgwylir y prisiad tair blynedd nesaf ar 1 Ebrill 2017.

Mae'r dystysgrif actiwaraidd ffurfiol wedi'i chynnwys ar dudalen 37.

## Aelodaeth

Nodir isod yr aelodaeth o'r Cynllun ar ddechrau ac ar ddiwedd y flwyddyn, a'r newidiadau yn ystod y flwyddyn:

| Aelodau gweithredol | |
|---|---|
| **Aelodau a oedd yn cyfrannu ar ddechrau'r flwyddyn 1 Ebrill 2016 (60 Aelod Cynulliad, a'r Cwnsler Cyffredinol. O'r 60 Aelod mae 36 ohonynt yn Ddeiliaid Swyddi.)** | 60 |
| **Aelodau newydd yn ystod y flwyddyn** | 22 |
| **Aelodau sydd wedi gadael yn ystod y flwyddyn [1]** | (8) |
| **Aelodau sydd wedi ymddeol yn ystod y flwyddyn** | (15) |
| **Marwolaeth mewn swydd** | 0 |
| **Aelodau a oedd yn cyfrannu ar 31 Mawrth 2017** | 59 |

**1 Mae hyn yn cynnwys un aelod nad yw bellach yn cyfrannu oherwydd ei fod wedi cyrrraedd yr uchafswm a ganiateir yng Nghynllun Pensiwn yr Aelodau.**

| Pensiynwyr | |
|---|---|
| **Aelodau a oedd yn cael taliadau pensiwn ar 1 Ebrill 2016 [1]** | 36 |
| **Aelodau sy'n ymddeol o wasanaeth gweithredol yn ystod y flwyddyn [2]** | 16 |
| **Aelodau sy'n ymddeol o fod â statws gohiriedig** | 3 |
| **Dibynyddion newydd** | - |
| **Marwolaethau yn ystod y flwyddyn** | - |
| **Pensiynwyr a oedd yn cael taliadau pensiwn ar 31 Mawrth 2017** | 55 |

1 Wedi'i ailddatgan i eithrio un aelod na wnaeth dynnu'i bensiwn wedi iddo ddod yn ddyledus ac sy'n dal i fod yn ohiriedig.

2 Mae hyn yn cynnwys un aelod gweithredol sy'n derbyn yr elfen Lleiafswm Pensiwn Gwarantedig yn unig.

| Aelodau gohiriedig | |
|---|---|
| **Ar 1 Ebrill 2016[1]** | 21 |
| **Aelodau a adawodd gan gadw'u hawl i ohirio cymryd eu pensiwn** | 7 |
| **Aelodau sy'n ymddeol o fod â statws gohiriedig** | (3) |
| **Aelodau a drosglwyddodd fudd-daliadau allan o'r Cynllun** | - |
| **Aelodau gohiriedig ar 31 Mawrth 2017** | 25 |

1 Wedi'i ailddatgan i eithrio un aelod na wnaeth dynnu'i bensiwn gohiriedig wedi iddo ddod yn ddyledus ac sy'n dal i fod yn ohiriedig.

## Cynnydd mewn pensiynau

Datgelir manylion y taliadau a wnaed o'r Cynllun yn ystod y flwyddyn yn Nodyn 6 sy'n cyd-fynd â'r cyfrifon. Adolygir y pensiynau sy'n cael eu talu bob blwyddyn yn unol â'r Gorchymyn Cynnydd Pensiynau (Adolygu). Gosodwyd gorchymyn 2017 gerbron y Senedd ar 16 Mawrth 2017 a daeth i rym ar ar 10 Ebrill 2017.

Ni fu unrhyw gynnydd mewn pensiynau gohiriedig ar wahân i rai statudol.

## Ceidwad

Nid oes gan fuddsoddiad y Cynllun yn y Gronfa Bensiwn Reoledig geidwad gan ei fod yn buddsoddi mewn unedau mewn polisi bywyd nad oes angen ceidwad arno.  Ceidwad Baillie Gifford Life Ltd yw Bank of New York, One Canada Square, Llundain, E14 5AL.Mae buddsoddiadau'r Cynllun yn y Gronfa Twf Amrywiol a'r Gronfa Fynegrifol 'Active Gilt Plus' wedi'u buddsoddi mewn cyfranddaliadau mewn Cwmni Buddsoddi Penagored (*Open-Ended Investment Company* - OEIC). Mae'r Storfa ar gyfer yr OEIC, sef Banc National Westminster, wedi penodi Banc Efrog Newydd yn geidwad.

## Rheoli buddsoddiadau

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi penodi Baillie Gifford Life Ltd yn Rheolwyr y Gronfa ar gyfer buddsoddiad y Cynllun yn y Gronfa Bensiwn Reoledig ac mae'r Ymddiriedolwyr wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb o reoli'r buddsoddiadau iddynt hwy.

Gwneir buddsoddiadau drwy bolisi pensiwn Baillie Gifford Life Ltd. Prif nodwedd y polisi yw bod y budd-daliadau a geir yn hollol ddibynnol ar berfformiad buddsoddi asedau'r Gronfa.

Ar 3 Hydref 2016, gwnaeth Baillie Gifford newidiadau i'r polisi a'r cytundeb contractiol gyda'r Ymddiriedolwyr a Baillie Gifford Life Limited. Effeithiodd y newid ar y rhan honno o'r polisi sy'n ymwneud â Chronfa Twf Amrywiol Baillie Gifford, a Chronfa Bensiwn Fynegrifol 'Active Gilt Plus' Baillie Gifford. Roedd y newidiadau hynny'n ymwneud â'r cynnydd yn y baich rheoleiddio a chymhwysedd yn sgil y gofynion a osodwyd o dan Solvency II.

Ar ôl cymryd y cyngor cyfreithiol a buddsoddiad priodol, cytunodd yr Ymddiriedolwyr i Baillie Gifford drosglwyddo rhan o bolisi'r Ymddiriedolwyr a gedwir yn y DGF a'r AIL o BG Life (is-gwmni bywyd) i gwmni buddsoddi penagored BG & Co Ltd. (OEIC), cyfrwng buddsoddi cronedig sydd wedi'i strwythuro fel cwmni cyfyngedig lle gall buddsoddwyr brynu a gwerthu cyfranddaliadau.

Ar ôl y trosglwyddiad, mae'r Ymddiriedolwyr bellach wedi contractio gyda BG & Co Ltd ac nid BG Life, ac mae ganddynt gyfranddaliadau yn uniongyrchol mewn cronfa OEIC yn hytrach nag unedau mewn cwmni bywyd. Cafodd yr unedau a ddaliwyd yn y DGF a'r AIL eu cyfnewid am nifer gwahanol o gyfranddaliadau yn yr OEIC sylfaenol, ac mae'r cyfranddaliadau hyn wedi'u cofrestru yn enw'r Ymddiriedolwyr.

Cadarnhaodd Baillie Gifford na fyddai niwed i'r buddsoddiad sylfaenol o ganlyniad i symud o bolisi a ddaliwyd gan strwythur cwmni bywyd i sefyllfa lle mae'r Ymddiriedolwyr yn dal cyfranddaliadau'n uniongyrchol yn y cronfeydd OEIC sylfaenol. Mae'r strategaethau buddsoddi a'r cronfeydd wedi aros yr un fath ac nid aethpwyd i unrhyw gostau wrth drosglwyddo. Mae'r sefyllfa TAW wedi aros yr un fath o ran y ffioedd rheoli buddsoddiadau.

Telir ffi rheoli i Baillie Gifford Life Ltd ar sail canran o gyfanswm gwerth y gronfa ar y farchnad bob blwyddyn, sef 0.45 y cant yng nghyswllt y Gronfa Bensiwn Reoledig, a chaiff Baillie Gifford & Co. 0.25 y cant yng nghyswllt y Gronfa Fynegrifol 'Active Gilt Plus', a 0.65 y cant yng nghyswllt y Gronfa Bensiwn Twf Amrywiol, a chaiff hyn ei ddidynnu o werth y cronfeydd bob mis.

Y gost o reoli'r gronfa yn 2016-17 oedd £159,584 ac roedd 'Treuliau Eraill' o £28,831 (y gost yn 2015-16 oedd £147,879 ac roedd y 'Treuliau Eraill' yn werth £32,814).

Mae'r holl asedau yn y cronfeydd mynegrifol sy'n cael eu gweithredu gan Baillie Giford Life Ltd yn eiddo i gwmni yswiriant Baillie Gifford Life, ac maent wedi'u cofrestru yn enw Baillie Gifford Life. Mae gan y Cynllun berchnogaeth fuddiol mewn cyfran o'r asedau sy'n sail i'r cronfeydd OEIC y mae'n buddsoddi ynddynt.

Mae Baillie Gifford yn cydnabod bod hawliau a chyfrifoldebau arbennig ynghlwm wrth fod yn berchen ar gyfranddaliadau cwmni ar ran cleientiaid. Ar yr un pryd, mae materion amgylcheddol, cymdeithasol a materion llywodraethiant, a'r modd y caiff y materion hyn eu rheoli, yn rhan annatod o gynaliadwyedd busnes. Oherwydd hyn, mae Baillie Gifford yn ystyried materion o'r fath wrth ddadansoddi ac adolygu cwmni, ac mae Tîm Llywodraethu Corfforaethol penodol hefyd yn ysgwyddo'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm â bod yn berchen ar gyfranddaliadau ar ran eu cleientiaid.

Mae eu hagwedd tuag at y materion cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n cyd-fynd â pherchnogaeth cyfranddaliadau'n seiliedig ar ymgysylltu a thrafod yn hytrach nag allgáu. Drwy ddefnyddio ymchwil mewnol ac allanol, maent wedi nodi materion allweddol sy'n ymwneud â chyfranddaliadau eu cleientiaid ac wedi'u trafod â'r cwmnïau dan sylw. Yn y modd hwn, maent yn annog cwmnïau i fonitro'r risgiau a'r cyfleoedd amgylcheddol a chymdeithasol perthnasol sy'n wynebu eu busnesau ac yn

ymdrin â hwy. Maent yn credu y gall y broses hon gyfrannu at werth buddsoddiadau eu cleientiaid yn yr hirdymor.

Fel cwmni sydd wedi nodi ei ymrwymiad i God Stiwardiaeth y DU ac Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig (UNPRI), mae Baillie Gifford yn hybu trafodaeth effeithiol rhwng buddsoddwyr a chwmnïau ynghylch materion llywodraethu a materion strategol a, drwy lynu wrthynt, maent yn helpu i gynnwys materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant mewn penderfyniadau'n ymwneud â buddsoddiadau prif ffrwd ac arferion perchnogaeth.

## Buddsoddiadau

Mae'r holl fuddsoddiadau mewn daliannau a ganiateir gan reoliadau'r Cynllun ac na cheir eu gwahardd gan yr Ymddiriedolwyr.

Nid yw maint asedau'r Cynllun yn ddigon i ganiatáu portffolio llawn amrywiaeth o fuddsoddiadau pe bai'r asedau'n cael eu buddsoddi'n uniongyrchol mewn bondiau, stociau a chyfranddaliadau. Felly, nes i'r asedau fod yn ddigon mawr, cred yr Ymddiriedolwyr mai'r ffordd fwyaf effeithiol o fuddsoddi mewn cynhyrchion digon amrywiol ac am gost resymol yw defnyddio ymddiriedolaethau unedol neu gwmnïau buddsoddi penagored.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl i adenillion y buddsoddiadau fod yn ganolig neu'n well ar gyfer eu sector wrth eu mesur yn erbyn cronfeydd cronedig tebyg.  Disgwylir hefyd i adenillion y buddsoddiadau fod yn uwch na chwyddiant prisiau ac i'r gwahaniaeth rhwng y ddau fod yn ddigon i sicrhau y darperir ar gyfer budd-daliadau'r Cynllun yn unol â chyfrifiadau actiwaraidd y Cynllun.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi paratoi Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi, yn unol ag adran 35 o'r Ddeddf, sy'n nodi eu polisïau buddsoddi a'u strategaeth ar gyfer eu cyflawni, ac mae copi ar gael gan Ysgrifenyddiaeth y Cynllun ar gais.

Mae'r cyfrifoldeb dros reoli buddsoddiadau o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i Baillie Gifford Life Limited, sy'n gweithredu'n unol â'r canllawiau a'r cyfyngiadau a nodir yn y Cytundeb Polisi Bywyd yn achos y buddsoddiad yn y Gronfa Bensiwn Reoledig a gyda chyfarwyddiadau a roddir gan yr Ymddiriedolwyr o bryd i'w gilydd. Mae'r cyfrifoldeb dros reoli buddsoddiadau o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i Baillie Gifford & Co, sy'n gweithredu'n unol â'r canllawiau a'r cyfyngiadau a nodir yn Nhelerau ac Amodau OEIC yn achos y buddsoddiad yn y Gronfa Twf Amrywiol a'r Gronfa Fynegrifol 'Active Gilt Plus' a gyda chyfarwyddiadau a roddir gan yr Ymddiriedolwyr o bryd i'w gilydd.

Mae'r buddsoddiadau'n cynnwys unedau mewn cronfeydd cronedig a reolir gan Baillie Gifford, ac ystyrir bod y daliadau hynny'n hawdd eu gwerthu.

## Polisi Buddsoddi

Yr Ymddiriedolwyr sy'n pennu Polisi Buddsoddi'r Cynllun a bydd yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd. Mae'r polisi sydd ar waith ar 31 Mawrth 2017 i'w weld yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi, sydd wedi'i fabwysiadu gan yr Ymddiriedolwyr, a gall Aelodau wneud cais i Ysgrifenyddiaeth y Cynllun i'w weld. Nid yw'r polisi'n caniatáu unrhyw fuddsoddiad cysylltiedig â'r cyflogwr.

Dyma'r amcanion perfformiad ar gyfer y cronfeydd buddsoddi:

Cronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford – perfformio rhwng 1.0 a 1.5 y cant (gros) yn well bob blwyddyn na Chanolrif y Sector 40 y cant-85 y cant Cyfranddaliadau Buddsoddiad Cymysg yr IA dros gyfnodau treigl o dair blynedd.

Dros y tair blynedd diwethaf bu cynnydd o 11.4 y cant (heb gynnwys ffioedd) yng nghyfradd enillion blynyddol y Gronfa Bensiwn Reoledig o'i gymharu â meincnod o 9.5 y cant. Cafwyd adenillion cadarnhaol o'r prif farchnadoedd ecwiti a bondiau yn ystod y 12 mis hyd at 31 Mawrth, a gafodd hwb gan yr arwyddion o dwf economaidd mewn gwledydd a oedd yn cynnwys y DU ac UDA. Perfformiodd ecwitïau yn neilltuol o dda, yn enwedig yn achos buddsoddwyr sterling a fanteisiodd ar y bunt wannach.

Cronfa Fynegrifol 'Gilt Plus' Baillie Gifford – perfformio 1.5 y cant (gros) yn well bob blwyddyn na'r enillion ar Fynegai Gilt Mynegrifol 5 mlynedd Actiwarau'r FTSE dros gyfnodau treigl o dair blynedd. Roedd Cronfa Fynegrifol 'Active Gilt Plus' Baillie Gifford wedi perfformio'n gadarnhaol yn ystod y 12 mis hyd at 31 Mawrth 2017, ac yr oedd yn unol â'r meincnod mewn termau cymharol. Mae'r marchnadoedd bondiau wedi cael eu dominyddu gan gamau gweithredu'r banciau canolog a gwleidyddiaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn enwedig penderfyniad Prydain i adael yr Undeb Ewropeaidd a buddugoliaeth Donald Trump yn etholiad arlywyddol yr Unol Daleithiau. Ysgogodd canlyniad refferendwm Prydain ar adael yr UE ragor o gefnogaeth gan y banciau canolog drwy gwtogi ar y cyfraddau llog a phrynu bondiau. Yn yr Unol Daleithiau, mae'r cyfraddau llog wedi cynyddu ac efallai y bydd hyd yn oed rhagor o gynnydd oherwydd gallai buddugoliaeth Trump olygu rhagor o wariant gan y llywodraeth a'r posibilrwydd o chwyddiant uwch. Dros y 3 blynedd ddiwethaf mae'r Gronfa Bensiwn Fynegrifol wedi perfformio islaw'r meincnod. Cyfradd yr enillion blynyddol oedd 13.6 y cant (heb gynnwys ffioedd) o gymharu â meincnod o 14.6 y cant.

Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford – perfformio 3.5 y cant (gros) y flwyddyn yn well (heb gynnwys ffioedd) dros gyfnodau treigl o bum mlynedd, gyda chyfnewidioldeb blynyddol o lai na 10 y cant.

Dros y pum mlynedd diwethaf bu cynnydd o 5.6 y cant (heb gynnwys ffioedd) yng nghyfradd adenillion y Gronfa Bensiwn Twf Amrywiol o gymharu â meincnod o 4.0 y cant. Perfformiodd y Gronfa yn gryf yn ystod y 12 mis, gan sicrhau adenillion o 10.3 y cant, heb gynnwys ffioedd.

Mae adroddiad buddsoddi sy'n ymwneud â'r polisïau buddsoddi yn ystod y flwyddyn ac adolygiad o berfformiad buddsoddiadau'r Gronfa, ynghyd â natur, trefniadau a diogelwch yr asedau i'w gael ar dudalennau 12 i 17. Gwerth y Gronfa Reoledig ar y farchnad fel ar 31 Mawrth 2017 oedd £15,561,160. Gwerth y Gronfa Fynegrifol 'Active Gilt Plus' ar y farchnad ar 31 Mawrth 2017 oedd £3,508,343; gwerth y Gronfa Bensiwn Twf Amrywiol ar y farchnad ar 31 Mawrth 2017 oedd £14,212,682. Datgelir y gwerthoedd hyn yn Nodyn 13 o'r cyfrifon.

Llofnod

**Jill Youds**
Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr (ar ran yr Ymddiriedolwyr)

Llofnod

**Nia Morgan**
Ymddiriedolwr

# Adroddiad buddsoddi – ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi paratoi Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi, sy'n nodi eu polisïau buddsoddi a'u strategaeth ar gyfer eu cyflawni, ac mae copi ar gael ar gais gan Ysgrifennydd y Cynllun.

Mae'r cyfrifoldeb o reoli buddsoddiadau o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i Baillie Gifford Life Limited, sy'n gweithredu'n unol â'r canllawiau a'r cyfyngiadau a nodir yn y cynllun Polisi Bywyd a'r Ddogfen Nodweddion Allweddol, ac yn ôl y cyfarwyddiadau a roddir gan yr Ymddiriedolwyr o bryd i'w gilydd.

Mae'r buddsoddiadau'n cynnwys unedau mewn cronfeydd cronedig a reolir gan Baillie Gifford, ac ystyrir bod y daliadau'n hawdd eu gwerthu.

## Prisiad y Portffolio

| | 31 Mawrth 2017 GBP | 31 Mawrth 2016 GBP |
|---|---|---|
| **Cronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford** | 15,561,160 | 12,526,052 |
| **Cronfa Twf Amrywiol Baillie Gifford** | 14,212,682 | 0 |
| **Cronfa Fynegrifol 'Active Gilt Plus' Baillie Gifford** | 3,508,343 | 0 |
| **Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford** | | 12,594,172 |
| **Cronfa Bensiwn Fynegrifol 'Active Gilt Plus' Baillie Gifford** | | 2,890,438 |
| CYFANSWM | **33,282,185** | **28,010,662** |

Trosglwyddodd y Cynllun o Gronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford a Chronfa Bensiwn Fynegrifol 'Active Gilt Plus' Baillie Gifford i Gronfa Twf Amrywiol Baillie Gifford (OEIC) a Chronfa Fynegrifol 'Active Gilt Plus' Baillie Gifford (OEIC) ar 3 Hydref 2016.

## Dosraniad yr Asedau

Dosraniad yr asedau oedd:

| | 31 Mawrth 2017 % | 31 Mawrth 2016 % |
|---|---|---|
| **Cronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford** | 46.8 | 44.7 |
| **Cronfa Twf Amrywiol Baillie Gifford** | 42.7 | 0 |
| **Cronfa Fynegrifol 'Active Gilt Plus' Baillie Gifford** | 10.5 | 0 |
| **Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford** | 0.0 | 45.0 |
| **Cronfa Bensiwn Fynegrifol 'Active Gilt Plus' Baillie Gifford** | 0.0 | 10.3 |
| CYFANSWM | **100.0** | **100.0** |

## Amcan Perfformiad

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi pennu amcan perfformiad ar gyfer y rheolwyr buddsoddi sy'n ystyried proffil rhwymedigaethau'r gronfa a'r lefel o risg sy'n briodol ym marn yr Ymddiriedolwyr.

## Perfformiad hyd at fis Mawrth 2017 (%)

| Cronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford | Cronfa (Net) | Meincnod |
|---|---|---|
| Perfformio rhwng 1.0 ac 1.5 y cant y flwyddyn (gros) yn well na chanolrif Cronfa Gronedig Gytbwys CAPS dros gyfnodau treigl o dair blynedd. | | |
| O 1 Gorffennaf 2016, mae'r Gronfa yn cael ei mesur ar sail canolrif y Sector 40 y cant-85 y cant Cyfranddaliadau Buddsoddiad Cymysg IA. | | |
| Pum mlynedd (y flwyddyn) | 11.7 | 9.6 |
| Tair blynedd (y flwyddyn) | 11.4 | 9.5 |
| Un Flwyddyn | 22.8 | 20.0 |

| Cronfa Bensiwn Fynegrifol 'Active Gilt Plus' Baillie Gifford | Cronfa (Net) | Meincnod |
|---|---|---|
| Pum mlynedd (y flwyddyn) | 9.3 | 9.9 |
| Tair blynedd (y flwyddyn) | 13.6 | 14.6 |
| Un Flwyddyn | 21.5 | 22.0 |

| Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford | Cronfa (Net) | Meincnod +3.5 % |
|---|---|---|
| Perfformio 3.5 y cant y flwyddyn (heb gynnwys ffioedd) yn well na chyfradd sylfaenol y DU dros gyfnodau treigl o bum mlynedd gyda chyfnewidioldeb blynyddol o lai na 10 y cant. | | |
| Pum mlynedd (y flwyddyn) | 5.6 | 4.0 |
| Tair blynedd (y flwyddyn) | 5.4 | 4.0 |
| Un Flwyddyn | 10.3 | 3.8 |

**Ffynhonnell: Baillie Gifford**

## Crynodeb o Ystadegau Risg

| Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford | |
|---|---|
| Cyfnewidioldeb a gyflawnwyd | 4.1 |

Cyfnewidioldeb blynyddol, wedi'i gyfrifo dros bum mlynedd tan ddiwedd mis Mawrth 2017.
**Ffynhonnell: Baillie Gifford**

# Cefndir yr economi a'r farchnad – 12 mis tan 31 Mawrth 2017

**Ffynhonnell: Baillie Gifford**

**Cytbwys**

Cafwyd adenillion cadarnhaol o'r prif farchnadoedd ecwiti a bondiau yn ystod y 12 mis hyd at 31 Mawrth, a gafodd hwb gan yr arwyddion o dwf economaidd mewn gwledydd a oedd yn cynnwys y DU ac UDA. Perfformiodd ecwitïau yn neilltuol o dda, yn enwedig yn achos buddsoddwyr sterling a fanteisiodd ar y bunt wannach. Roedd hyn er gwaethaf cyfnodau o ansicrwydd, wrth i'r sylw gael ei roi ar y newid gwleidyddol yn y Gorllewin.

Drwy gydol y cyfnod, roedd y ffocws yn yr Unol Daleithiau ar yr ymgyrch i ethol Arlywydd, a arweiniodd at sefydlu Donald Trump ym mis Ionawr. Roedd canlyniad yr etholiad yn dipyn o syndod, ac roedd ecwitïau, cynhyrchion bondiau a'r ddoler i gyd yn uwch. Ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd Cronfa Ffederal yr Unol Daleithiau y byddai'n codi cyfraddau am yr eildro mewn degawd, o 0.5 y cant i 0.75 y cant. Dilynwyd hyn yn fuan gan ail gynnydd ym mis Mawrth, gan adlewyrchu'r twf parhaus yn economi'r Unol Daleithiau.

Yn Siapan, hawliodd llywodraeth y Prif Weinidog Shinzo Abe fuddugoliaeth etholiadol ym mis Gorffennaf cyn cyhoeddi pecyn ysgogi o 4.6 triliwn yen, gan gynnwys cyllid ar gyfer lles a seilwaith. Tua diwedd y cyfnod, synnodd Banc Siapan y marchnadoedd drwy gyhoeddi ei gynllun i brynu swm diderfyn o fondiau dwy a phum mlynedd i reoli cynnyrch.

Ar ôl ysgogi cynnydd yn y pryniannau bond a wnaed fel rhan o'i raglen leddfu meintiol (QE) i 80 biliwn ewro y mis ym mis Mawrth 2016, lleihaodd Banc Canolog Ewrop (ECB) hynny i 60 biliwn ewro wrth i'r flwyddyn ddod i ben. Roedd y cyfraddau llog yn parhau ar -0.4 y cant.

Y prif ddigwyddiad yn y DU oedd y bleidlais i adael yr UE. Arweiniodd y canlyniad at fwy o anwadalrwydd yn union wedi'r bleidlais, ond maes o law, perfformiodd y marchnadoedd ecwiti yn dda. Ar sterling y bu'r effaith amlycaf. Digynnodd yn sydyn yn sgil y canlyniad - gan gyrraedd y pwynt isaf ers 31 mlynedd yn erbyn y ddoler ac nid yw wedi codi braidd ddim ers hynny. Ym mis Awst, cyhoeddodd Banc Lloegr fesurau i ysgogi twf yn economi'r DU, gan gynnwys torri'r cyfraddau llog o 0.5 y cant i gyfradd isel newydd o 0.25 y cant. Ym mis Mawrth 2017, rhagorodd chwyddiant ar darged Banc Lloegr a thaniodd y llywodraeth Erthygl 50, er mwyn cychwyn yn ffurfiol broses adael y DU o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r broses hon i gael ei chwblhau yn 2019.

Cymysg oedd hanes economïau'r Farchnad Ddatblygol. Roedd arafwch mewn twf, prisiau nwyddau yn gostwng a gwerthu arian cyfred wedi effeithio ar bethau cyn y cyfnod, yn ogystal ag amryw ffactorau gwleidyddol ym Mrasil a De Affrica. Fodd bynnag, bu'r adferiad yn y pris olew a nwyddau eraill, yn help i hybu'r adenillion, a llwyddodd y marchnadoedd i wella'n sylweddol tua diwedd y cyfnod.

Ar ddiwedd y cyfnod roedd marchnad ecwitiau'r DU 22 y cant yn uwch. Cafodd Gogledd America gynnydd o 18 y cant yn nhermau arian lleol, ond roedd cryfder y ddoler yn golygu bod hyn yn trosi i enillion o 35 y cant i fuddsoddwyr sterling. Ar ddiwedd y cyfnod roedd Ewrop 18 y cant yn uwch, enillion o 28 y cant ar ôl trosi i sterling. Yn y cyfamser, bu cynnydd o 17 y cant yn y Marchnadoedd Datblygol a bu cynnydd o 17 y cant mewn arian lleol yn Asia Ddatblygedig (gan gynnwys Siapan), sy'n cynrychioli cynnydd o 36 y cant a 35 y cant i fuddsoddwyr sterling.

Cafwyd perfformiad cryf yn y marchnadoedd llog sefydlog, gyda bondiau corfforaethol y DU i fyny 9 y cant a giltiau'r DU i fyny 7 y cant, tra bod y rhai a ddyroddwyd gan lywodraethau tramor yn cynyddu 11 y cant mewn sterling.

**Twf Amrywiol**

Gorffennodd y marchnadoedd buddsoddi o gwmpas y byd y flwyddyn yn gadarnhaol. Bu'r arwyddion o welliant cyffredinol yn y cefndir economaidd byd-eang a'r cyfraddau llog isel a oedd yn parhau mewn llawer o wledydd datblygedig yn hwb i'r sefyllfa. Fodd bynnag, cynyddodd anwadalrwydd y farchnad yn ystod ail hanner y flwyddyn ddiwethaf yn sgil nifer o ganlyniadau gwleidyddol annisgwyl. Bu refferendwm y DU ar adael yr Undeb Ewropeaidd yn gythryblus ac roedd y canlyniad - 'Brexit', fel y'i gelwir - yn annisgwyl iawn i'r marchnadoedd. Roedd y sylw ar etholiad arlywyddol yr Unol Daleithiau ym misoedd olaf 2016. Gwanhaodd y marchnadoedd cyn y bleidlais, ond setlodd pethau wedyn gan orffen y flwyddyn ar nodyn uchel, a pharhaodd hynny yn ystod chwarter cyntaf 2017.

Perfformiodd y Gronfa yn gryf yn ystod y 12 mis, gan sicrhau adenillion o 10.3 y cant, heb gynnwys ffioedd. Y prif gyfranwyr a roddodd hwb i'r perfformiad cadarnhaol oedd dosbarthiadau o asedau economaidd-agored, gydag ecwitïau rhestredig, credyd cynnyrch uchel a bondiau'r marchnadoedd datblygol oll yn sicrhau adenillion cryf. Bu ein dyraniad ar gyfer seilwaith hefyd yn hwb i berfformiad, ac yn yr un modd yr arian cyfred gweithredol lle'r oedd y buddsoddiad a ddewiswyd gennym yn arian cyfred marchnadoedd datblygol a doler yr Unol Daleithiau o gymorth.

Mae'r Gronfa yn dal i fod yn weddol amrywiol. O fewn bondiau llywodraeth y marchnadoedd datblygol, rydym wedi buddsoddi mewn cyflenwad o fondiau arian cyfred caled (ar ffurf doleri'r Unol Daleithiau). Gwerthwyd ein bondiau Groegaidd, a oedd wedi perfformio'n dda, ac ailfuddsoddwyd peth o'r elw ym mondiau'r Ariannin, lle mae proses o ddiwygio cadarnhaol ar y gweill.

O ran ein risgiau credyd, tociwyd ein cynnyrch uchel a'r pwysoliadau cyllid strwythuredig wrth i'r darpar adenillion ddod yn llai deniadol. Cadwyd rhai o enillion y gostyngiadau hyn mewn arian parod a biliau-T byrdymor, yn y gobaith o allu manteisio ar gyfleoedd yn y dyfodol. Buddsoddwyd hefyd ym mondiau llywodraeth mynegrifol yr Unol Daleithiau, yn y gobaith o gael cyfradd llog well nag yr ydym yn ei chael ar arian parod a cheisio manteisio ar unrhyw gynnydd yn chwyddiant yr Unol Daleithiau.

Mewn nwyddau, penderfynwyd gwerthu Palladium, oherwydd cododd ei bris yn sylweddol er na fu braidd ddim newid yn ei hanfodion. Yn olaf, dilewyd gweddill ein safle sterling byr, a sefydlwyd cyn refferendwm y DU ar aelodaeth o'r UE fel sicrwydd rhannol ar gyfer y portffolio rhag ofn mai canlyniad y refferendwm oedd gadael yr UE.

Rydym yn weddol optimistaidd o ran y rhagolwg ar gyfer yr economi byd-eang. Mae'r farn hon yn seiliedig ar fod economïau datblygedig a datblygol yn parhau i gynyddu. Wedi dweud hynny, mae'r prisiadau ar eu gwerth teg hirdymor, neu'n uwch na hynny, ar draws amrywiaeth eang o asedau. Felly, er bod y ffigurau twf yn rhesymol gadarn, yn wyneb normaleiddio cyfraddau llog ac ansicrwydd gwleidyddol, mae'n debygol y ceir lefelau uwch o anwadalrwydd yn y farchnad nag y gafwyd yn y blynyddoedd diwethaf. Felly, rydym yn cynnal portffolio amrywiol sy'n cael ei fuddsoddi mewn amrywiaeth o ddosbarthiadau deniadol o asedau.

**Llywodraeth**

Bu prif sylw'r marchnadoedd bondiau ar gamau gweithredu'r banciau canolog a gwleidyddiaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r twf Ewropeaidd wedi bod yn weddol ddi-flach ac mae'r banciau canolog wedi ceisio sbarduno'r economi drwy dorri cyfraddau llog a phrynu bondiau. Hefyd, effeithiodd penderfyniad Prydain ym mis Mehefin i adael yr Undeb Ewropeaidd ar y marchnadoedd, ac

ysgogodd hyn y banciau canolog i ddarparu rhagor o gymorth i roi sicrwydd i fuddsoddwyr. Mae buddugoliaeth annisgwyl Donald Trump yn etholiad arlywyddol yr Unol Daleithiau yn debygol o roi hwb i economi'r Unol Daleithiau a chynyddu chwyddiant. Mae cyfraddau llog yr Unol Daleithiau wedi codi, ac mae'n bosibl y bydd y Gronfa Ffederal yn cyflwyno rhagor o gynnydd, gan ragweld chwyddiant uwch ac oherwydd y bydd lefel uwch o wariant gan y llywodraeth yn cymryd lle'r ysgogiad ariannol i gynnal y twf economaidd.

Yn y cyfamser, mae Banc Canolog Ewrop a Banc Siapan, ill dau, wedi cynyddu'r ysgogiad ariannol yn ystod y flwyddyn. Yn sgil yr ansicrwydd ynghylch goblygiadau pleidlais y DU ym mis Mehefin i adael yr UE penderfynodd Banc Lloegr ostwng y cyfraddau llog a chynyddu ei raglen prynu bondiau o dan broses o leddfu meintiol ym mis Awst. Disgwylir y bydd `Brexit 'yn parhau i effeithio ar y marchnadoedd wrth i ragor o fanylion am y setliad ymadael ddod i'r amlwg.

Yn erbyn y cefndir hwn, cynyddodd gwerth bondiau'r llywodraeth ledled y byd, gyda chynnyrch, sy'n symud i'r gwrthwyneb i brisiau bondiau, yn is ar ddiwedd y cyfnod. Enillodd giltiau'r DU 7 y cant yn ystod y 12 mis, tra bod bondiau llywodraethau tramor wedi cynyddu 11 y cant yn nhermau sterling, gyda'r sterling yn wan yn erbyn yr arian cyfred mawr arall yn sgil y bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd.

## Y Daliadau mwyaf – Y Deg Uchaf

| Cronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford | Canran o'r portffolio |
|---|---|
| Cronfa Baillie Gifford Emerging Mkts Growth Bond | 6.6 |
| Cronfa BG Worldwide Global Credit | 6.4 |
| Cronfa Baillie Gifford Global Bond | 3.5 |
| Cronfa Baillie Gifford Emerging Mkts Growth | 3.2 |
| Cronfa BG Worldwide Active Cash Plus | 2.3 |
| Amazon.com | 1.6 |
| Tesla Inc | 1.3 |
| Prudential | 1.1 |
| Cronfa Fynegrifol 'Active Gilt Plus' Baillie Gifford | 1.1 |
| British American Tobacco | 1.1 |

| Cronfa Bensiwn Fynegrifol 'Active Gilt Plus' Baillie Gifford | Canran o'r portffolio |
|---|---|
| Trysorlys y DU 1.25 y cant Mynegrifol 2055 | 12.4 |
| Trysorlys y DU 0.5 y cant Mynegrifol 22/03/2050 | 10.8 |
| Trysorlys y DU 0.625 y cant Mynegrifol 22/11/2042 | 10.4 |
| Trysorlys y DU 0.75 y cant Mynegrifol 22/11/2047 | 9.8 |
| Trysorlys y DU 0.125 y cant Mynegrifol 22/3/2068 | 8.5 |
| Trysorlys y DU 1.25 y cant Mynegrifol 22/11/2032 | 7.8 |
| Trysorlys y DU 0.375 y cant Mynegrifol 22/11/2062 | 7.3 |
| Trysorlys y DU 0.125 y cant Mynegrifol 22/03/2024 | 7.3 |
| Trysorlys y DU 4.125 y cant Mynegrifol 22/07/2030 | 6.5 |
| Trysorlys y DU 2 y cant Mynegrifol 26/01/2035 | 5.6 |

| Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford | Canran o'r portffolio |
|---|---|
| Cronfa Baillie Gifford Emerging Mkts Bond | 7.0 |
| Cronfa Baillie Gifford Global Alpha Growth | 5.3 |
| Cronfa Baillie Gifford Global Income Growth | 5.2 |
| US TII 0.625 y cant 15/1/2026 | 5.0 |
| Cronfa Baillie Gifford Worldwide Global Credit | 4.8 |
| Cronfa Galene | 4.4 |
| Cronfa BG Worldwide Japanese | 3.6 |
| Bondiau Llywodraeth EM Baillie Gifford EM (Arian Caled) | 3.0 |
| Allianz Merger Arbitrage Strategy | 2.7 |
| Cronfa Baillie Gifford LTGG | 2.6 |

Ffynhonnell: FTSE International Limited ("FTSE") © FTSE 2017. "FTSE®" yw nod masnach cwmnïau Grŵp Cyfnewidfa Stoc Llundain ac fe'i defnyddir gan FTSE International Limited o dan drwydded. Mae'r holl hawliau yn y mynegeion FTSE a/neu cyfraddau FTSE yn breinio yn FTSE a/neu ei drwyddedwyr. Nid yw FTSE na'i drwyddedwyr yn derbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw wallau neu hepgoriadau yn y mynegeion FTSE a / neu'r graddfeydd neu ddata sylfaenol FTSE ac ni chaniateir i unrhyw barti ddibynnu ar unrhyw fynegeion, graddfeydd a / neu ddata sylfaenol FTSE a gynhwysir yn y cyfathrebiad hwn. Ni chaniateir dosbarthu data FTSE ymhellach heb ganiatâd ysgrifenedig penodol FTSE. Nid yw FTSE yn hyrwyddo, yn noddi nac yn cymeradwyo cynnwys y cyfathrebiad hwn.

Nid oes yr un darparwr data trydydd parti ("Darparwr") yn gwneud unrhyw warant, yn ddiamwys neu'n oblygedig, ynghylch cywirdeb, cyflawnrwydd neu amseroldeb y data a gynhwysir yma nac ynghylch y canlyniadau y gallai derbynwyr y data eu cael. Ni chaniateir i unrhyw Ddarparwr fod yn atebol mewn unrhyw fodd i unrhyw dderbynnydd data am unrhyw anghywirdebau, gwallau neu hepgoriadau yn y data mynegeiol a gynhwysir yn y ddogfen hon, ni waeth beth yw'r achos, neu am unrhyw ddifrod (boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) sy'n deillio o hynny.

Nid oes rhwymedigaeth ar unrhyw Ddarparwr i ddiweddaru, addasu neu ddiwygio'r data neu fel arall hysbysu derbynnydd o hynny rhag ofn y bydd unrhyw fater a nodir yma yn newid neu'n mynd yn anghywir wedi hynny.

Heb gyfyngu ar yr uchod, ni chaiff Darparwr fod ag unrhyw rwymedigaeth i chi, boed mewn contract (gan gynnwys o dan indemniad), mewn camwedd (gan gynnwys esgeulustod), o dan warant, o dan statud neu fel arall, mewn perthynas ag unrhyw golled neu ddifrod a ddioddefir gennych chi o ganlyniad i, neu mewn cysylltiad ag unrhyw farn, argymhellion, rhagolygon, dyfarniadau, neu unrhyw gasgliadau eraill, neu unrhyw ffordd o weithredu a benderfynir, gennych chi neu unrhyw drydydd parti, boed hynny neu beidio yn seiliedig ar y cynnwys, y wybodaeth neu deunyddiau a gynhwysir yma.

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr am y Datganiadau Ariannol

Yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am y Datganiadau Ariannol. Nid yw'n ofynnol trwy statud i'r Ymddiriedolwyr gydymffurfio â rheoliadau cynlluniau pensiwn, ond maent wedi cytuno i wneud hynny pan fydd hynny'n bosibl oherwydd bod hyn yn arfer da. Yn ôl y rheoliadau, mae'n rhaid i'r Ymddiriedolwyr sicrhau bod datganiadau ariannol archwiliedig ar gyfer bob blwyddyn o'r Cynllun ar gael i aelodau'r Cynllun, buddiolwyr a rhai partïon eraill a bod yn rhaid i'r datganiadau hyn:

- roi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y Cynllun yn ystod blwyddyn y cynllun ac o faint a sefyllfa'r asedau a'r rhwymedigaethau ar ddiwedd y flwyddyn honno, ar wahân i'r cyfrifoldebau i dalu pensiynau a budd-daliadau ar ôl diwedd blwyddyn y cynllun, a
- cynnwys y wybodaeth benodol yn yr Atodlen i'r Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i gael Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd) 1996, gan gynnwys datganiad yn nodi a yw'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir 'Adroddiadau Ariannol o Gynlluniau Pensiwn'.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi goruchwylio'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol ac maent wedi cytuno ar bolisïau cyfrifyddu addas, sydd i'w gweithredu'n gyson gan wneud unrhyw amcangyfrifon a dod i unrhyw farn ar sail ddarbodus a rhesymol.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am sicrhau y cedwir at reolau'r Cynllun ac argymhellion yr Actwari o ran y cyfraniadau sy'n daladwy i'r Cynllun, cyfraniadau gan, neu ar ran, y cyflogwr ac aelodau gweithredol y Cynllun a'r dyddiadau y mae'r cyfraniadau hyn i'w talu. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am gadw cofnod o gyfraniadau a dderbyniwyd mewn perthynas ag unrhyw aelod gweithredol o'r Cynllun ac am sicrhau bod cyfraniadau'n cael eu gwneud i'r Cynllun yn unol ag argymhellion Actiwari'r Cynllun.

Hefyd, mae gan yr Ymddiriedolwyr gyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu digonol yn cael eu cadw ac am gymryd y camau sy'n rhesymol agored iddynt i ddiogelu asedau'r Cynllun ac i atal a darganfod unrhyw dwyll neu anghysonderau eraill, gan gynnwys cynnal dulliau rheoli mewnol priodol.

## Crynodeb o'r Cyfraniadau a dalwyd yn ystod y flwyddyn

Dyma'r cyfraniadau a dalwyd i'r Cynllun yn ystod y flwyddyn gan y Cyflogwr yn unol ag argymhellion yr Actiwari:

| | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Cyfraniadau arferol y cyflogwr | 737,113 | 971,226 |
| Cyfraniadau arferol y cyflogeion | 452,307 | 400,051 |
| Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol y cyflogeion | 905 | 10,853 |
| Cyfanswm | **1,190,325** | **1,382,130** |

Cysoni'r cyfraniadau a dalwyd, a welir uchod, â'r cyfraniadau a nodwyd yn y datganiadau ariannol:

| | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Cyfraniadau a dalwyd | 1,191,464 | 1,382,130 |
| Namyn balans agoriadol dyledwyr | (115,270) | (115,430) |
| Ychwaneger balans terfynol dyledwyr | 98,847 | 115,270 |
| Cyfanswm y Cyfraniadau a nodwyd yn y datganiadau ariannol | **1,175,041** | **1,381,970** |

Llofnod

**Jill Youds**
Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr
(ar ran yr Ymddiriedolwyr)
**Dyddiad**: 10 Gorffennaf 2017

Llofnod

**Nia Morgan**
Ymddiriedolwr

# Datganiad llywodraethu

## Cwmpas y cyfrifoldeb

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb fel Ymddiriedolwyr am gynnal system gadarn o lywodraethu i ddiogelu cronfeydd ac asedau cyhoeddus sy'n gysylltiedig â Chynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Caiff cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr eu diffinio'n glir yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr ar dudalen 18.

Mae Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gynllun statudol ac mae'n gynllun pensiwn cofrestredig o dan Ddeddf Cyllid 2004. Cyfeirnod Treth y Cynllun Pensiwn (PSTR) yw 00462258RW.

Mae'r Tîm Pensiynau o fewn Gwasanaethau Ariannol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu gwasanaethau ysgrifenyddol a gweinyddol i'r Ymddiriedolwyr ac mae'r trefniant hwn yn dod o dan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Bwrdd), Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Comisiwn) a'r Ymddiriedolwyr. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn nodi rolau a chyfrifoldebau priodol y Bwrdd, y Comisiwn a'r Ymddiriedolwyr o ran rheoli a gweinyddu Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Cylch Gorchwyl hefyd ar gyfer y Bwrdd Pensiynau sy'n nodi'r cyfrifoldebau hynny sy'n benodol i'r Bwrdd, gan gwmpasu eu cylch gwaith, yr hyn sy'n ofynnol gan aelodau'r Bwrdd a'r broses benodi.

## Y Fframwaith Llywodraethu

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd tri chyfarfod o'r ymddiriedolwyr, a hynny ym mis Gorffennaf, Tachwedd a Mawrth.  Mae'r tabl presenoldeb isod yn dangos cyfran yr holl gyfarfodydd y bu'r Ymddiriedolwyr yn bresennol ynddynt.

| Enw | Canran y cyfarfodydd y bu'r ymddiriedolwyr yn bresennol ynddynt |
|---|---|
| Jill Youds Cadeirydd | 100 y cant |
| Mike Hedges AC Cynrychiolydd Aelodau | 100 y cant |
| Gareth Jones Cynrychiolydd Aelodau | 100 y cant |
| Suzy Davies AC Cynrychiolydd y Comisiwn | 100 y cant yn ystod ei thymor tan 22 Chwefror 2017 |
| Joyce Watson AC Cynrychiolydd y Comisiwn | 100 y cant yn ystod ei thymor ers 22 Chwefror 2017 |
| Nia Morgan Cynrychiolydd y Comisiwn | 100 y cant |

Yn ystod y flwyddyn ystyriodd yr Ymddiriedolwyr yr adroddiadau manwl a ganlyn:

– Yr adroddiad etifeddiaeth a ddarparodd y Bwrdd Ymddiriedolwyr blaenorol,

– Adroddiad yr Archwilydd ar y Datganiadau Ariannol,

– Adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Cynllun,

– Adolygiad o fuddsoddiadau, perfformiad, rhagolygon a meincnodau'r Cynllun.

– Adolygiad o'r wybodaeth i aelodau, gan gynnwys cylchlythyr yr aelodau a'r adroddiadau budd-daliadau blynyddol ar eu newydd wedd.

Roedd y wybodaeth hon, ynghyd â phapurau briffio ychwanegol a luniwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth, yn darparu data o ansawdd da sy'n caniatáu i'r Ymddiriedolwyr arfer eu swyddogaethau'n effeithiol yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.

## Diben y system rheolaeth fewnol

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i chynllunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol ac nid sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd y gall ei ddarparu.

Mae'r system reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus i geisio nodi'r prif risgiau i nodau ac amcanion Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, er mwyn gwerthuso natur a maint y risgiau hynny a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r system yn seiliedig ar fframwaith o reoli gwybodaeth yn rheolaidd, rheoli ariannol, gweithdrefnau gweinyddol, gan gynnwys gwahanu dyletswyddau, a system o ddirprwyo a sicrhau atebolrwydd. Mae'r system reolaeth fewnol wedi bod ar waith yng Nghynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon.

## Problemau Rheolaeth Fewnol Sylweddol

Ni nodwyd unrhyw broblemau Rheolaeth Fewnol sylweddol yn ystod y flwyddyn.

## Y gallu i ymdopi â risg

Caiff y cyfrifoldeb dros weinyddu a chyfrifyddu'r Cynllun o ddydd i ddydd ei ysgwyddo ar ran yr Ymddiriedolwyr gan staff yr Ysgrifenyddiaeth o fewn Gwasanaethau Ariannol Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth.

## Digwyddiadau Data Personol

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â data personol na cholli data yn ystod y flwyddyn.

## Rheoli Risg

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, adolygwyd y gofrestr risg ar gyfer y Cynllun, a chafodd ei diweddaru a'i chytuno gyda'r Ymddiriedolwyr fel rhan o'r cynllun busnes tymor canolig. Caiff pob risg ei nodi a'i asesu mewn tri chategori, sef uchel / canolig / isel, yn seiliedig ar ffactorau fel y tebygolrwydd y byddai'r risg yn digwydd, effaith y risg pe bai'n digwydd a'r rheolaethau sydd yn eu lle ar hyn o bryd i reoli pob risg a nodir. Bydd yr ymddiriedolwyr yn adolygu'r gofrestr risg bob blwyddyn o leiaf.

Defnyddiwyd y gofrestr a ddeilliodd o hyn i ganfod unrhyw fesurau ychwanegol a ystyrir yn angenrheidiol i reoli'r risgiau yn effeithiol. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r risgiau sydd wedi eu nodi a'r mesurau a roddwyd ar waith i leihau eu heffaith:

– **Buddsoddiadau** Risg na fydd buddsoddiadau yn cynhyrchu digon o enillion gan effeithio, o ganlyniad, ar sefyllfa ariannol y cynllun. Caiff perfformiad buddsoddiadau ei adolygu gan yr Ymddiriedolwyr bob chwarter, a bydd ymgynghorydd buddsoddi'r Cynllun yn paratoi adroddiad blynyddol ar berfformiad buddsoddiadau;

– **Cofnodion y Cynllun Pensiwn:** Risg o gofnodion anghyflawn neu anghywir yn arwain at daliadau anghywir / anawdurdodedig neu wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth anghyflawn. Cadwyd

cofnodion cywir o aelodau a chyn-aelodau, o drafodiadau i mewn ac allan o’r Cynllun ac o gyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr;

– **Gweinyddu’r Cynllun:** Mae’r Ymddiriedolwyr yn monitro’r camau a gymerir gan y staff gweinyddol i reoli risgiau yn eu meysydd cyfrifoldeb ym mhob un o’u cyfarfodydd;

– **Aelodau:** Mae gweithdrefn ar waith i ddatrys anghydfodau’n ymwneud â’r Cynllun gydag aelodau. Darperir gwybodaeth yn rheolaidd i aelodau’r Cynllun drwy gylchlythyron ac mewn cyfarfodydd grŵp.

## Adolygu effeithiolrwydd

Cawn gymorth i ddatblygu a chynnal y rheolaethau mewnol gan uwch reolwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol. Bydd Archwilwyr Mewnol Comisiwn y Cynulliad yn adolygu’r fframwaith rheoli mewnol bob blwyddyn.

Caiff ein hadolygiad o effeithiolrwydd y rheolaethau hyn ei lywio gan waith Archwilydd Cyffredinol Cymru. Caiff y sylwadau a wnaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei lythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill eu hystyried.

Rydym yn fodlon bod y rheolaethau mewnol sydd ar waith wedi bod yn effeithiol yn ystod y cyfnod dan sylw yn yr adroddiad hwn.

Cymeradwywyd ar ran yr Ymddiriedolwyr ar 10 Gorffennaf 2017 gan:

Llofnod

**Jill Youds**
Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr
(ar ran yr Ymddiriedolwyr)

Llofnod

**Nia Morgan**
Ymddiriedolwr

# Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rwyf wedi archwilio Datganiadau Ariannol Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017 sy'n cynnwys cyfrif y gronfa, y datganiad o asedau net a'r nodiadau cysylltiedig. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw cyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

## Cyfrifoldebau arbennig yr ymddiriedolwyr a'r archwilwyr

Fel yr eglurir yn llawnach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr ar dudalen 18, ymddiriedolwyr y cynllun sy'n gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol fy mod yn cydymffurfio â'r Safonau Moesegol i Archwilwyr a gyhoeddir gan y Cyngor Adrodd Ariannol.

## Cwmpas archwilio'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn golygu casglu digon o dystiolaeth am y symiau a'r hyn a ddatgelir yn y datganiadau ariannol i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol, p'un ai oherwydd twyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r canlynol: a yw'r polisïau cyfrifyddu'n briodol i amgylchiadau Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n briodol; pa mor rhesymol yw amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol yr ymddiriedolwyr; a'r modd y cyflwynir y datganiadau ariannol yn gyffredinol.

Yn ogystal â hyn, byddaf yn darllen yr holl wybodaeth ariannol ac unrhyw wybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynyddol i nodi unrhyw anghysonderau o bwys yn y datganiadau ariannol a archwiliwyd ac i nodi unrhyw wybodaeth arwyddocaol sy'n ymddangos yn anghywir, a hynny ar sail y wybodaeth a gaf wrth gynnal yr archwiliad, neu oherwydd unrhyw anghysondeb o bwys a welaf rhwng y datganiadau a'r wybodaeth a gaf. Os byddaf yn gweld unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau o bwys, byddaf yn ystyried goblygiadau hynny ar gyfer fy adroddiad.

## Barn am y datganiadau ariannol

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

– yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y cynllun yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017, a'r swm a'r sefyllfa ar ddyddiad ei asedau a'i rwymedigaethau, heblaw am y rhwymedigaethau i dalu pensiynau a budd-daliadau ar ddiwedd y flwyddyn;

– wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac

– yn cynnwys y wybodaeth a bennir yn Rheoliad 3 o Reoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i gael Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd) 1996 a'r Atodlen iddynt, a wneir o dan Ddeddf Pensiynau 1995.

**Huw Vaughan Thomas**
Archwilydd Cyffredinol Cymru
**Dyddiad:** 11 Gorffennaf 2017

24 Heol y Gadeirlan Caerdydd CF11 9LJ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio'r cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Cynulliad Cenedlaethol Cymru Cynllun Pensiwn yr Aelodau sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.
Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal a chadw a sicrhau cywirdeb gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru; nid yw'r gwaith y mae Archwilwyr yn ymgymryd ag ef yn ystyried y materion hyn ac, oherwydd hyn, nid yw Archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi'u gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno am y tro cyntaf ar y wefan.

# Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017 – y Gronfa

| Cyfraniadau a budd-daliadau | Nodyn | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|---|
| | | £ | £ |
| Cyfraniadau'r cyflogwr | 4 | 715,413 | 971,123 |
| Cyfraniadau cyflogeion | 4 | 459,628 | 410,847 |
| Cyfanswm y cyfraniadau | | 1,175,041 | 1,381,970 |
| Trosglwyddiadau i mewn | 5 | 172,395 | 18,329 |
| Llog a dderbyniwyd | | 348 | 50 |
| Incwm arall | | 0 | 100 |
| | | 1,347,784 | 1,400,449 |
| Budd-daliadau a dalwyd neu sy'n daladwy | 6 | (1,961,240) | (463,373) |
| Ffioedd Proffesiynol | 12 | (105,471) | (130,825) |
| Treuliau gweinyddol | 10 | (7,194) | (2,072) |
| Taliadau i aelodau sy'n ymadael ac o'u herwydd | | 0 | (224,823) |
| | | (2,073,905) | (821,093) |
| | | | |
| **Ychwanegiadau net o drafodion ag Aelodau** | | (726,121) | 579,356 |
| **Incwm buddsoddi** | | | |
| Newid yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad | 13 | 4,958,414 | 241,370 |
| Llog arian cadw | 7 | 191 | 720 |
| Treuliau rheolwyr buddsoddi | 14 | (188,415) | (180,693) |
| **Adenillion net ar fuddsoddiadau** | | 4,770,190 | 61,397 |
| | | | |
| **Swm y cynnydd net yn y gronfa** | | 4,043,893 | 640,753 |
| | | | |
| **Asedau net adeg agor y cynllun** | | 29,668,998 | 29,028,245 |
| | | | |
| **Asedau net adeg cau'r cynllun** | | **33,712,891** | **29,668,998** |

| Datganiad o’r asedau net | Nodiadau | Ar 31 Mawrth 2017 | Ar 31 Mawrth 2016 |
|---|---|---|---|
| | | £ | £ |
| **Asedau buddsoddi** | | | |
| Buddsoddiad cronedig | 13 | 33,282,185 | 28,010,662 |
| Cyfrif Cadw’r Trysorlys | 7 | 0 | 323,276 |
| Cyfanswm y buddsoddiadau | | 33,282,185 | 28,333,938 |
| **Asedau Cyfredol** | 8 | 471,406 | 1,364,607 |
| **Rhwymedigaethau Cyfredol** | 9 | (40,700) | (29,547) |
| **Cyfanswm asedau net y Cynllun** | | **33,712,891** | **29,668,998** |

Crynhoi trafodiadau ac asedau net y Cynllun yn unig y mae’r Datganiadau Ariannol, ac nid ydynt yn ystyried rhwymedigaethau i dalu pensiynau a budd-daliadau sy’n ddyledus ar ôl diwedd blwyddyn y Cynllun. Ymdrinnir â safbwynt yr Actiwari, sy’n ystyried rhwymedigaethau o’r fath, yn Natganiad yr Actiwari ar dudalen 37 a dylid darllen y Datganiadau Ariannol hyn ar y cyd â’r adroddiad hwnnw.

Cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwyr ar 10 Gorffennaf 2017:

Llofnod

**Jill Youds**
Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr
(ar ran yr Ymddiriedolwyr)

Llofnod

**Nia Morgan**
Ymddiriedolwr

Mae'r nodiadau ar dudalennau 26-35 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau sy’n cyd-fynd â’r Cyfrifon

## 01. Sail y gwaith paratoi

Mae’r cyfrifon hyn wedi’u paratoi yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102 – y Safon Adrodd Ariannol sy’n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon, a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol, ac â’r canllawiau a nodir yn y Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORP) ar Adroddiadau Ariannol Cyfrifon Cynllun Pensiwn, a adolygwyd ym mis Tachwedd 2015. Dyma’r flwyddyn gyntaf i FRS 102 a’r SORP diwygiedig fod yn gymwys i ddatganiadau ariannol y Cynllun.

Mae’r cyfrifon yn crynhoi trafodion ac asedau net y Cynllun. Nid ydynt yn ystyried rhwymedigaethau i dalu pensiynau a budd-daliadau eraill ar ôl diwedd blwyddyn y cynllun.

Mae’r adroddiad actiwaraidd yn ystyried y rhwymedigaethau hyn (gellir gweld Datganiad yr Actwari ar dudalennau 37 i 38).

## 02.Polisïau cyfrifyddu

Dyma brif bolisïau cyfrifyddu’r Cynllun:

### Incwm o fuddsoddiadau

– Caiff incwm o adneuon arian parod ac adneuon tymor byr eu cyfrif ar sail croniadau.

– Caiff incwm o fuddsoddiadau sy’n deillio o fuddsoddiadau sylfaenol y cyfryngau buddsoddi cronedig eu cyflwyno yn y gronfa fuddsoddi, a’u hadlewyrchu yng ngwerth yr unedau a chyfranddaliadau, ac ni adroddir arno ar wahân yn natganiadau ariannol y Cynllun.

– Mae llog adneuon arian parod yn cronni’n ddyddiol.

### Cyfraniadau

– Rhoddir cyfrif am gyfraniadau cyflogeion, gan gynnwys Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol pan fyddant yn cael eu didynnu o gyflog aelodau.

– Caiff Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol eu buddsoddi gyda chyfraniadau arferol yng nghronfeydd y Cynllun yn unol â’r cytundeb ar gyfer eu talu.

– Rhoddir cyfrif am gyfraniadau arferol y Cyflogwr ar yr un sail â chyfraniadau cyflogeion.

### Trosglwyddiadau

– Cafodd gwerth yr holl symiau ariannol a drosglwyddwyd i gynlluniau pensiwn eraill eu cyfrifo a’u gwirio gan Actiwari’r Cynllun yn unol â Deddf Cynlluniau Pensiwn 1993. Yn 2008, darfu'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer trosglwyddo symiau i’r cynllun, ac felly caiff credydau gwasanaeth wrth drosglwyddo i mewn eu cyfrifo’n unol â rheolau’r Cynllun a chanllawiau a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.

### Taliadau i aelodau

– Rhoddir cyfrif am fudd-daliadau yn y cyfnod y maent yn ddyledus a rhoddir cyfrif am ad-daliadau cyfraniadau pan fyddant yn cael eu gwneud.

– Rhoddir cyfrif am drosglwyddiadau unigol i mewn i’r Cynllun neu allan ohono pan delir neu pan dderbynnir y swm dan sylw, sy’n digwydd fel arfer pan dderbynnir bod rhwymedigaeth i aelod neu pan ryddheir o’r rhwymedigaeth honno.

### Treuliau

– Rhoddir cyfrif am wariant yn y cyfnod sy'n berthnasol iddo.

### Treth

Mae'r Cynllun yn gynllun pensiwn statudol o dan Adran 611A o Ddeddf Trethi Incwm a Chorfforaethol 1988, fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 12 o Ddeddf Cyllid 1999, ac mae'n gynllun cofrestredig tybiedig o dan Ddeddf Pensiynau 2004 ac yn 'gynllun cymeradwy' at ddibenion derbyn gwerthoedd trosglwyddo. Felly, mae'r cynllun wedi'i eithrio o drethiant. Cyfeirnod Treth y Cynllun Pensiwn (PSTR) yw 00462258RW.

### Prisio buddsoddiadau

Caiff buddsoddiadau eu prisio ar eu gwerth teg ar ddyddiad y Datganiad o'r Asedau Net yn unol â'r hierarchaeth gwerth teg a ganlyn:

Categori (a) Y pris a ddyfynnwyd mewn marchnad weithredol am ased o'r un math.

Categori (b) Os nad yw pris a ddyfynnwyd ar gael, pris trafodiad diweddar ar gyfer ased o'r un math, wedi'i addasu os oes angen.

Categori (c) Os nad yw pris a ddyfynnwyd ar gael ac os nad yw trafodiad diweddar o ased o'r un math, ar ei ben ei hun, yn amcangyfrif da o werth teg, caiff y gwerth teg ei bennu gan ddefnyddio techneg brisio sy'n defnyddio:

- c (i) data gweladwy'r farchnad; neu
- c (ii) data nad yw'n weladwy.

Caiff buddsoddiadau cronedig eu prisio ar bris teg a nodir ar y pris terfynol sengl sy'n cael ei gyfrifo ar sail pris terfynol y gwarannau gwaelodol ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Gall hyn fod yn wahanol i'r pris a ddefnyddir ar gyfer prynu a gwerthu unedau.

## 03.Ysgrifenyddiaeth

Mae'r gost o ddarparu staff ar gyfer ysgrifenyddiaeth y Cynllun yn parhau i gael ei dalu'n uniongyrchol gan Gomisiwn y Cynulliad o dan amodau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cytunodd y Comisiwn a'r Ymddiriedolwyr arno. Amcangyfrifir mai £95,428.45 (2015-16 £103,793) oedd y gost ar gyfer cyfnod y cyfrifon hyn.

## 04.Cyfraniadau i'w derbyn

| | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---:|---:|
| Cyfraniadau'r cyflogwr: | £ | £ |
| Normal | 715,413 | 971,123 |
| Cyfraniadau cyflogeion: | | |
| Normal | 459,628 | 399,985 |
| Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol | 0 | 10,862 |
| Cyfanswm | **1,175,041** | **1,381,970** |

Cyfrannodd aelodau 10 y cant i gronni budd-daliadau ar sail deugeinfed, a 6 y cant i gronni budd-daliadau ar sail hanner canfed a chyfrannodd Comisiwn y Cynulliad 15.6 y cant o gyflogau pensiynadwy i'r Cynllun.

Cyfrannodd aelodau'r Cynllun CARE 10.5 y cant i gronni budd-daliadau ar sail un rhan o hanner canfed y cyfartaledd gyrfa.

## 05. Trosglwyddiadau i mewn

Mae'r trosglwyddiadau o £172,395 (2015-16 £18,329) i mewn yn cynrychioli'r asedau a drosglwyddwyd i'r Cynllun mewn perthynas â dau aelod a drosglwyddodd i mewn yn ystod y flwyddyn.

## 06. Budd-daliadau sy'n daladwy

| | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|
| Mae cyfraniadau'n cynnwys: | £ | £ |
| Pensiynau | 605,111 | 389,191 |
| Budd-daliadau Ymddeol - Cyfandaliadau | 1,356,129 | 74,182 |
| Cyfandaliadau Budd-daliad Marwolaeth | - | - |
| | **1,961,240** | 463,373 |

## 07. Cyfrif Cadw'r Trysorlys

| | Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017 £ | Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 £ |
|---|---|---|
| Cyfrif cadw'r Trysorlys ar 1 Ebrill | 323,276 | 352,573 |
| Ychwanegu'r llog ar gyfer y flwyddyn | 191 | 720 |
| | 323,467 | 353,293 |
| (Alldyniadau)/adneuon | (323,500) | (29,994) |
| Symudiadau mewn llog cronedig | (33) | (23) |
| Cyfanswm Cyfrif Cadw'r Trysorlys | **0** | **323,276** |

## 08.Asedau Cyfredol

| | 31 Mawrth 2017<br>£ | 31 Mawrth 2016<br>£ |
|---|---|---|
| Arian parod yn y banc | 372,310 | 1,249,055 |
| Cyfraniadau sy’n ddyledus gan y cyflogwr a'r cyflogai | 98,847 | 115,270 |
| Dyledwyr eraill a rhagdaliadau | 249 | 282 |
| Cyfanswm | 471,406 | 1,364,607 |

Mae cyfraniadau sy'n ddyledus gan y cyflogwr a'r cyflogai yn cyfeirio at fis Mawrth 2016 ac fe'u talwyd yn llawn i'r cynllun cyn y terfyn amser statudol o 19 Ebrill 2016.

## 09.Rhwymedigaethau Cyfredol

| | 31 Mawrth 2017<br>£ | 31 Mawrth 2016<br>£ |
|---|---|---|
| Credydwyr: symiau’n daladwy cyn pen blwyddyn | (40,700) | (29,547) |
| Cyfanswm | (40,700) | (29,547) |

Mae ‘credydwyr: symiau’n daladwy cyn pen blwyddyn’ yn cynrychioli rhwymedigaethau am waith a wnaed pa un a dderbyniwyd yr anfonebau neu beidio erbyn diwedd y flwyddyn, a rhwymedigaethau dyledus sydd heb eu talu.

## 10.Costau gweinyddol

| | 2016-17<br>£ | 2015-16<br>£ |
|---|---|---|
| Hyfforddiant | 5,357 | - |
| Costau gweinyddol eraill | 1,837 | 2,072 |
| Cyfanswm | 7,194 | 2,072 |

## 11. Cyfryngau buddsoddi cronedig

| | 31 Mawrth 2017<br>£ | 31 Mawrth 2016<br>£ |
|---|---|---|
| Cronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford | 15,561,160 | 12,526,052 |
| Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford | 14,212,682 | 12,594,172 |
| Cronfa Bensiwn Fynegrifol 'Active Gilt Plus' Baillie Gifford | 3,508,343 | 2,890,438 |
| Cyfanswm | 33,282,185 | 28,010,662 |

## 12. Ffioedd proffesiynol

| | 2016-17<br>£ | 2015-16<br>£ |
|---|---|---|
| Ffioedd Actiwaraidd | 40,681 | 60,824 |
| Ymddiriedolwr Annibynnol | 9,638 | - |
| Ymgynghoriaeth Fuddsoddi | 20,279 | 14,429 |
| Ffioedd archwilio | 10,899 | 13,079 |
| Ffioedd Cyfreithiol | 23,974 | 42,493 |
| Cyfanswm | 105,471 | 130,825 |

Cynyddodd ffioedd yr ymgynghoriaeth fuddsoddi yn ystod y flwyddyn i adlewyrchu'r gwaith a wnaed ar feincnodi perfformiad buddsoddi'r Cynllun o gymharu â chynlluniau eraill. Mae'r ffi actiwaraidd eleni yn cynnwys elfen o gapio costau a bydd hyn yn parhau i'r flwyddyn ganlynol. Mae'r ffioedd cyfreithiol yn is eleni gan adlewyrchu'r ffaith bod y rheolau newydd bellach ar waith a bod yr adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Cynllun yn gyflawn. Darparwyd gwaith a wnaed gan Adran Actiwari'r Llywodraeth gan Actiwari'r Cynllun a chan y Tîm Buddsoddi a Risg.

## 13. Cysoni buddsoddiadau

| | Cronfa Bensiwn Reoledig £ | Cronfeydd Pensiwn Mynegrifol [1] £ | Cronfeydd Twf Amrywiol [1] £ | Asedau Buddsoddi Net £ |
|---|---|---|---|---|
| Gwerth ar 1 Ebrill 2016 | 12,526,052 | 2,890,438 | 12,594,172 | 28,010,662 |
| Pryniannau am bris cost | 162,190 | | 339,334 | 501,524 |
| Gwarediadau a Gwerthiant | - | - | - | - |
| Newid yn y gwerth ar y farchnad | 2,940,434 | 626,967 | 1,391,013 | 4,958,414 |
| Treuliau Rheolwyr Buddsoddi gan gynnwys Treuliau Eraill | (67,516) | (9,062) | (111,837) | (188,415) |
| Newid net yn y gwerth ar y farchnad | 2,872,918 | 617,905 | 1,279,176 | 4,769,999 |
| Gwerth ar y farchnad ar 31 Mawrth 2017 | 15,561,160 | 3,508,343 | 14,212,682 | 33,282,185 |
| Cost llyfr ar 31 Mawrth 2017 | 4,765,486 | 3,557,853 | 13,724,188 | 22,047,527 |

[1]Trosglwyddodd y Cynllun o Gronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford a Chronfa Bensiwn Fynegrifol 'Active Gilt Plus' Baillie Gifford i Gronfa Twf Amrywiol Baillie Gifford (OEIC) a Chronfa Fynegrifol 'Active Gilt Plus' Baillie Gifford (OEIC) ar 3 Hydref 2016. Mae gwerth y gronfa, y strategaethau buddsoddi a'r cronfeydd wedi aros yr un fath ac nid aethpwyd i unrhyw gostau wrth drosglwyddo. Mae'r sefyllfa TAW wedi aros yr un fath o ran y ffioedd rheoli buddsoddiadau.

Ym mis Chwefror addaswyd y cost llyfr ar gyfer y Gronfa Bensiwn Twf Amrywiol a'r Gronfa Fynegrifol 'Active Gilt Plus'. Mae'r addasiadau yn ymwneud â'r dosbarthiad cyntaf o'r daliadau OEIC dilyn y broses dadbacio ar 3 Hydref 2016. Mae'r daliadau OEIC newydd mewn cyfranddaliadau *cronni*, sy'n golygu yn y bôn y bydd pris y cyfranddaliadau a ddelir yn cynyddu ar ôl pob cyfnod dosbarthu. Caiff hyn ei adlewyrchu gan y cynnydd yn y cost llyfr ar 31 Mawrth 2017.

| | Cronfa Bensiwn Reoledig £ | Cronfa Bensiwn Fynegrifol £ | Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol £ | Asedau Buddsoddi Net £ |
|---|---|---|---|---|
| Gwerth ar 1 Ebrill 2015 | 12,832,902 | 2,942,770 | 12,804,432 | 28,580,104 |
| Pryniannau am bris cost | - | 29,806 | 532,075 | 561,881 |
| Gwarediadau a Gwerthiant | (536,400) | (119,200) | (536,400) | (1,192,000) |
| Newid yn y gwerth ar y farchnad | 288,642 | 44,975 | (92,247) | 241,370 |
| Treuliau Rheolwyr Buddsoddi gan gynnwys Treuliau Eraill | (59,092) | (7,913) | (113,688) | (180,693) |
| Newid net yn y gwerth ar y farchnad | 229,550 | 37,062 | (205,935) | 60,677 |
| Gwerth ar y farchnad ar 31 Mawrth 2016 | 12,526,052 | 2,890,438 | 12,594,172 | 28,010,662 |
| Cost llyfr ar 31 Mawrth 2016 | 4,603,297 | 1,776,417 | 10,066,872 | 16,446,586 |

Dangosir dyraniad yr asedau yn Adroddiad Buddsoddi Rheolwyr y Gronfa ar dudalen 12. Ni ellir pennu'r incwm buddsoddi ar gyfer cronfeydd sylfaenol Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan nad oes dosbarthiadau o'r gronfa, gyda'r holl incwm ac unrhyw adenillion treth yn cael eu cyfuno a thrwy hynny gynyddu gwerth yr unedau.

## 14.Treuliau'r Rheolwyr Buddsoddi

Y ffioedd rheoli buddsoddiadau yw 0.45 y cant y flwyddyn yn achos y Gronfa Bensiwn Reoledig, 0.65 y cant yn achos y Gronfa Bensiwn Twf Amrywiol a 0.25 y cant yn achos y Gronfa Bensiwn Fynegrifol.

Mae 'treuliau eraill' yn cynnwys ffioedd cadw, a lle bo'r Gronfa yn is-gronfa o Gwmni Buddsoddi Penagored (OEIC) neu'n buddsoddi mewn is-gronfeydd OEIC sylfaenol, bydd hefyd yn cynnwys treuliau fel ffioedd adnau, ffioedd cofrestru a ffioedd archwilio.

Cynhwysir hefyd gostau masnachu uniongyrchol (treth stamp, trethi araill a chomisiwn broceru) y mae'n rhaid eu talu wrth brynu neu werthu stociau ar y farchnad.

Cyfanswm y treuliau yw 0.52 y cant ar gyfer y Gronfa Bensiwn Reoledig, 0.83 y cant ar gyfer y Gronfa Bensiwn Twf Amrywiol ac 0.27 y cant ar gyfer y gronfa Bensiwn Fynegrifol a chânt eu tynnu o werth y cronfeydd a’u hadlewyrchu ym mhris uned y cronfeydd.

| Cynllun | Rheoli Buddsoddiadau | | Treuliau Eraill | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2016-17 | 2015-16 | 2016-17 | 2015-16 | 2016-17 | 2015-16 |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Cronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford | (63,927) | (56,577) | (3,589) | (2,514) | (67,516) | (59,092) |
| Cronfeydd Mynegrifol Baillie Gifford | (8,322) | (7,327) | (740) | (586) | (9,062) | (7,913) |
| Cronfeydd Pensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford | (87,335) | (83,974) | (24,502) | (29,714) | (111,837) | (113,688) |
| Cyfanswm | **(159,584)** | **(147,879)** | **(28,831)** | **(32,814)** | **(188,415)** | **(180,693)** |

## 15. Hierarchaeth Gwerth Teg Buddsoddi

Defnyddiwyd yr hierarchaeth gwerth teg a ganlyn i bennu gwerth teg offerynnau ariannol:

- Categori (a) Y pris a ddyfynnwyd mewn marchnad weithredol am ased o'r un math.
- Categori (b) Os nad yw pris a ddyfynnwyd ar gael, pris trafodiad diweddar ar gyfer ased o'r un math, wedi'i addasu os oes angen.
- Categori (c) Os nad yw pris a ddyfynnwyd ar gael ac os nad yw trafodiad diweddar o ased o'r un math, ar ei ben ei hun, yn amcangyfrif da o werth teg, caiff y gwerth teg ei bennu gan ddefnyddio techneg prisio sy'n defnyddio:
    - c (i) data gweladwy'r farchnad; neu
    - c (ii) data nad yw'n weladwy.

At ddibenion y dadansoddiad hwn, mae cronfeydd a gaiff eu prisio'n ddyddiol wedi'u cynnwys yn (a).

Mae asedau buddsoddi'r Cynllun wedi cael eu prisio'n deg gan ddefnyddio'r categorïau hierarchaeth uchod fel a ganlyn:

| Ar 31 Mawrth 2017 | Categori (a) £ | Categori (b) £ | Categori c (i) £ | Categori c (ii) £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfryngau buddsoddi cronedig | 33,282,185 | | | | 33,282,185 |
| Arian cadw | | | | | |
| Cyfanswm | **33,282,185** | | | | **33,282,185** |

| Ar 31 Mawrth 2016 | Categori (a) £ | Categori (b) £ | Categori c (i) £ | Categori c (ii) £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfryngau buddsoddi cronedig | 28,010,662 | - | - | - | 28,010,662 |
| Arian cadw | 323,276 | - | - | - | 323,276 |
| Cyfanswm | **28,333,938** | **-** | **-** | **-** | **28,333,938** |

## 16. Risgiau buddsoddi

Mae amrywiaeth o risgiau yn gysylltiedig â buddsoddiadau mewn cynllun pensiwn. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn ystyried y prif risgiau canlynol yn barhaus:

– Risg llif arian - sef risg o ddiffyg o ran asedau hylifol o'i gymharu â rhwymedigaethau uniongyrchol. Yn y tymor byr, cymharol ychydig o all-lifau arian parod sydd, ac mae'r Cynllun yn gadarnhaol o ran llif arian. Fodd bynnag, bydd yr Ymddiriedolwyr yn monitro'r risg hwn dros gyfnod ac yn addasu'r strategaeth fuddsoddi yn ôl y gofyn, er mwyn sicrhau bod digon o hylifedd.

– Risg o gamgymharu - sef risg y bydd gwerthoedd asedau ac atebolrwydd yn newid mewn ffyrdd sy'n wahanol iawn. Mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol bod buddsoddi'n sylweddol mewn asedau twf yn creu risg o gamgymharu, ond byddant am arallgyfeirio'r asedau twf i leihau risg yr anfantais. Asesir y risg hwn yn ystod pob prisiad actiwaraidd, ac fel y bydd y Cynllun yn aeddfedu bydd yr Ymddiriedolwyr yn ystyried sut i leihau camgymharu.

– Risg Rheolwr - sef risg na fydd y rheolwyr buddsoddi yn sicrhau'r adenillion a ddisgwylir gan yr Ymddiriedolwyr. Bydd y risg yn cael ei fonitro gan yr Ymddiriedolwyr, a fydd yn adolygu perfformiad y rheolwr yn erbyn ei feincnod a'i gymheiriaid yn rheolaidd. Bydd tanberfformio am gyfnod estynedig fel arfer yn arwain at ail-dendro'r mandad buddsoddi.

– Risg crynhoi - sef risg bod cyfran fawr o asedau'r Cynllun yn cael eu buddsoddi mewn un dosbarth o asedau neu fuddsoddiad. Mae'r Cynllun mewn perygl os yw'r dosbarth neu'r buddsoddiad hwnnw'n tanberfformio neu'n methu. Mae'r Ymddiriedolwyr yn lleihau'r perygl hwn drwy fabwysiadu strategaeth sy'n golygu buddsoddi mewn ystod o wahanol ddosbarthiadau o asedau.

– Risg o ran credyd - sef risg y bydd parti i gontract yn methu â thalu neu'n methu â chyflawni'i ymrwymiadau i'r Cynllun. Mae'r Ymddiriedolwyr yn lleihau'r risg hwn drwy fuddsoddi mewn cronfeydd sy'n diogelu asedau buddsoddwyr, a thrwy gadw adneuon arian parod gyda banciau cydnabyddedig yn unig, a banciau a awdurdodwyd i gynnal busnes bancio yn y Deyrnas Unedig.

Caiff buddsoddiadau'r Cynllun eu rheoli i sicrhau bod y risgiau hyn yn cael eu cadw ar lefel sy'n dderbyniol i'r Ymddiriedolwyr. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol bod strategaeth fuddsoddi sy'n osgoi risg yn gyfan gwbl yn debygol o gynhyrchu llai o elw dros y tymor hwy na buddsoddiadau gydag elfen o ansicrwydd ynghylch yr elw. Mae'r Cynllun yn cael ei ariannu gan arian cyhoeddus, ac felly mae'r Ymddiriedolwyr yn awyddus i ddarparu budd-daliadau heb i'r pris fod yn afresymol.

Wrth ystyried risg, bydd yr Ymddiriedolwyr yn ystyried cyngor eu hymgynghorwyr proffesiynol a'r consensws cyffredinol o ran arfer dderbyniol wrth ymdrin â chynlluniau pensiwn galwedigaethol yn y

Deyrnas Unedig. Ni fydd hyn yn atal yr Ymddiriedolwyr rhag derbyn risg yn eu strategaeth fuddsoddi pan fyddant o'r farn y bydd yn cynhyrchu elw da i'r Cynllun.

### 16.1 Polisi buddsoddi

Mae'r Ymddiriedolwyr yn paratoi polisi buddsoddi ar ôl gofyn am gyngor gan Adran Actiwari'r Llywodraeth ynghylch pa mor addas yw dosbarthiadau penodol o asedau, gan ystyried natur, amseriad a chyfoesedd rhwymedigaethau'r Cynllun, yn ogystal â'r lefel gyllido a pharodrwydd yr Ymddiriedolwyr a'r Cynulliad Cenedlaethol i fentro. O bryd i'w gilydd gall yr Ymddiriedolwyr hefyd ofyn am gyngor gan arbenigwyr eraill sydd â chymwysterau priodol.

Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cynllun ddigon o asedau i'w buddsoddi'n uniongyrchol i greu portffolio o fuddsoddiadau sydd ag amrywiaeth eang. Felly, hyd nes bydd yr asedau wedi cynyddu'n ddigonol, cred yr Ymddiriedolwyr mai'r ffordd fwyaf effeithiol o fuddsoddi mewn cynhyrchion digon amrywiol yw drwy ddefnyddio cynhyrchion buddsoddi cronedig.

Mae'r meini prawf buddsoddi o ran cynhyrchion buddsoddi cronedig wedi'u nodi yn nogfennau llywodraethu'r cynhyrchion hynny. Ni all Ymddiriedolwyr cynllun pensiwn unigol sy'n buddsoddi mewn cynnyrch cronedig o'r fath benderfynu ar y meini prawf hyn na'u diwygio. Fodd bynnag, gall Ymddiriedolwyr y Cynllun roi ystyriaeth lawn i'r amcanion buddsoddi a nodwyd a'r amrywiaeth o fuddsoddiadau a ganiateir wrth benderfynu sut i fuddsoddi asedau'r Cynllun.

Er mwyn cyflawni'r amcan o amrywio asedau'r Cynllun a chaniatáu'r defnydd o ddosbarthiadau asedau twf i sicrhau'r adenillion disgwyliedig uwch, bydd yr Ymddiriedolwyr yn buddsoddi mewn amrywiaeth o ddosbarthiadau o asedau sy'n ceisio sicrhau enillion tebyg i ecwiti yn bennaf. Bydd hyn, fel arfer, yn golygu defnyddio 'cronfeydd rheoledig', 'cronfeydd rheoledig cymysg' neu gronfeydd 'amrywiol' ar gyfer cynlluniau pensiwn. Caiff y gymysgedd o asedau yn y cronfeydd hyn ei addasu fel arfer yn ôl anghenion cynllun pensiwn nodweddiadol ac mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried bod y Cynllun o fath tebyg.

Gall yr Ymddiriedolwyr neu'u rheolwyr buddsoddi adneuo arian parod os ydynt yn aros i'w fuddsoddi, ei ail-fuddsoddi neu ei dalu i aelodau, neu fel rhan o'r strategaeth fuddsoddi o bryd i'w gilydd. Rhaid adneuo arian parod mewn banc neu fanciau cydnabyddedig a awdurdodwyd i gynnal busnes bancio yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r Cynllun yn gynllun pensiwn cofrestredig o dan Bennod 2 o Ran 4 o Ddeddf Cyllid 2004. Er mwyn manteisio ar y gostyngiadau treth a roddwyd i gynlluniau pensiwn cofrestredig, bydd yr Ymddiriedolwyr yn buddsoddi dim ond mewn cynhyrchion buddsoddi cronedig a all hawlio manteision treth tebyg drwy ganiatáu dim ond cynlluniau pensiwn eraill a gymeradwywyd at ddibenion treth neu elusennau cofrestredig i fuddsoddi ynddynt.

Yn unol â'r polisi hwn, ac er mwyn sicrhau amrywiaeth ddigonol, mae'r Ymddiriedolwyr wedi buddsoddi mewn tair cronfa gronedig: Cronfa Bensiwn Reoledig, Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol a Chronfa Bensiwn Fynegrifol.

## 17.Trafodion partïon cysylltiedig

Yn ystod cyfnod y cyfrif mae'r Cynllun wedi cael trafodion perthnasol â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, a ystyrir yn barti cysylltiedig. Datgelir y trafodion hyn yn Nodyn 3 i'r cyfrifon hyn. Nid oes yr un o'r Ymddiriedolwyr, Rheolwyr y Cynllun, staff rheoli allweddol na phartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol â'r Cynllun yn ystod y flwyddyn.

# Datganiad yr Archwilydd Annibynnol

**Datganiad yr Archwilydd Annibynnol ynghylch Cyfraniadau i Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Rwyf wedi archwilio'r crynodeb o'r cyfraniadau i Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017, a nodir ar dudalen 19.

## Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Archwilwyr

Fel y disgrifir yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr ar dudalen 18, Ymddiriedolwyr y Cynllun sy'n gyfrifol am sicrhau bod rhestr o gyfraniadau yn cael ei pharatoi, ei chynnal a'i hadolygu ac o bryd i'w gilydd, sy'n dangos y cyfraddau a'r dyddiadau dyledus yng nghyswllt rhai cyfraniadau sy'n daladwy i'r Cynllun gan neu ar ran y cyflogwr ac aelodau gweithredol y cynllun. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am gadw cofnod o gyfraniadau a dderbyniwyd mewn perthynas ag aelodau gweithredol y Cynllun ac am fonitro a yw'r cyflogwr yn cyfrannu i'r Cynllun yn unol â'r rhestr o gyfraniadau.

Fy nghyfrifoldeb i yw darparu datganiad am gyfraniadau a dalwyd o dan y rhestr o gyfraniadau a rhoi fy marn i chi.

## Cwmpas y gwaith ar y datganiad am gyfraniadau

Mae fy archwiliad yn ymwneud â chael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol fod y cyfraniadau a nodir yn y crynodeb o gyfraniadau ar dudalen 19, wedi'u talu, ym mhob ffordd berthnasol, yn unol â'r rhestr o gyfraniadau o leiaf. Mae hyn yn cynnwys archwilio, ar sail profion, y dystiolaeth a oedd yn gysylltiedig â swm y cyfraniadau a oedd yn daladwy i'r Cynllun a phryd y gwnaed y taliadau hynny, o dan y rhestr o gyfraniadau.

## Datganiad am gyfraniadau a oedd yn daladwy o dan y rhestr o gyfraniadau

Yn fy marn i mae cyfraniadau i'r cynllun yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017, fel y nodwyd yn y crynodeb o gyfraniadau, ac a oedd yn daladwy o dan y rhestr o gyfraniadau, wedi'u talu, ym mhob ffordd berthnasol, yn unol fan lleiaf â'r rhestr o gyfraniadau a ardystiwyd gan Actwari'r Cynllun ar 24 Mai 2017.

**Huw Vaughan Thomas**
Archwilydd Cyffredinol Cymru
**Dyddiad**: 11 Gorffennaf 2017

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio'r cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Cynulliad Cenedlaethol Cymru Cynllun Pensiwn yr Aelodau sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.
Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal a chadw a sicrhau cywirdeb gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru; nid yw'r gwaith y mae Archwilwyr yn ymgymryd ag ef yn ystyried y materion hyn ac, oherwydd hyn, nid yw Archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi'u gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno am y tro cyntaf ar y wefan.

# Datganiad yr Actiwari yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2017

Caiff Cynllun Pensiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei eithrio o'r gofyniad a nodir yn Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Datgelu Gwybodaeth) 1996 i baratoi adroddiad a chyfrifon archwiliedig o fewn saith mis i ddiwedd y flwyddyn gyfrifo. Fodd bynnag, bwriad yr Ymddiriedolwyr yw cydymffurfio ag ethos y ddeddfwriaeth, ac yn hynny o beth, mae'r datganiad hwn wedi'i baratoi yn yr un modd â phe bai'r ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu.

## Asesiad Actiwaraidd

Cynhaliwyd asesiad actiwaraidd ffurfiol o Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynllun) gyda dyddiad gweithredol o 1 Ebrill 2014, a'r prif amcan oedd gwneud argymhelliad i Ymddiriedolwyr y Cynllun ynghylch pennu cyfradd briodol ar gyfer cyfraniad y cyflogwr ar ôl y dyddiad hwnnw. Er bod swm cyfraniadau aelodau wedi'i bennu yn y Rheolau, mae cyfradd cyfraniad y cyflogwr yn cael ei bennu fel canran y cyflog sydd ei hangen i dalu balans y gost gyda'r bwriad o sicrhau y telir am fudd-daliadau'r Cynllun yn ystod gwasanaeth gweithredol disgwyliedig yr aelod â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Dull

Wrth baratoi prisiad actiwaraidd 2014, defnyddiwyd y Dull Rhagamcanu Unedau i brisio'r rhwymedigaethau y disgwyliwyd iddynt gronni o dan y Cynllun yn ystod y flwyddyn yn dilyn y dyddiad prisio. Mynegir Cyfradd Cyfraniadau Safonol y Dull Rhagamcanu Unedau fel gwerth y budd-daliadau a gronnir yn ystod y cyfnod rheoli wedi ei rannu â gwerth presennol enillion aelodau yn ystod y cyfnod hwn. Disgwylir i'r dull prisio hwn ddarparu Cyfradd Cyfraniadau Safonol lled sefydlog ar gyfer prisiadau actiwaraidd olynol cyhyd ag y bo'r dosbarthiad o aelodau'r Cynllun o ran oedran/rhyw/cyflog yn aros yn lled gyson.

Yna, cymharwyd gwerth y rhwymedigaethau a gronnwyd hyd at y dyddiad prisio â gwerth asedau'r Cynllun ar yr un dyddiad. Gellid bod wedi adlewyrchu'r gwarged o £3.58 miliwn fel addasiad i'r Gyfradd Cyfraniadau Safonol. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau â'r Ymddiriedolwyr, roedd y gyfradd a argymhellir ar gyfer cyfraniad y cyflogwr yr un fath â'r gyfradd daladwy yn dilyn prisiad 2011. Roedd hyn yn is na'r Gyfradd Cyfraniadau Safonol lawn namyn cyfraniadau aelodau, ond yn uwch nag y byddai wedi bod pe byddai'r Gyfradd Cyfraniadau Safonol wedi'i haddasu i gael gwared ar y gwarged yn y cynllun dros 15 mlynedd.

## Tybiaethau

Er mwyn cyfrifo cost budd-daliadau'r Cynllun, mae'n rhaid gwneud rhai tybiaethau actiwaraidd o ran incwm disgwyliedig y Cynllun yn y dyfodol a'r budd-daliadau a delir ganddo. Mae'r Gyfradd Cyfraniadau Safonol yn golygu y byddai'n ddigonol i gyllido'r buddiannau a gronnir ar ôl y dyddiad prisio os yw'r profiad yn unol â'r tybiaethau a wnaethpwyd. Efallai y bydd angen addasu'r Gyfradd Cyfraniadau Safonol yn y dyfodol i ystyried unrhyw wahaniaeth rhwng profiadau'r Cynllun a'r tybiaethau cyllid.

Dangosir y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd ym mhrisiad actiwaraidd 2014 i gyfrifo cost budd-daliadau'r Cynllun yn y tabl isod.

| | |
|---|---|
| Adenillion buddsoddiad, net o dreuliau, yn fwy na chwyddiant cyflog | 1½ y cant y flwyddyn |
| Adenillion buddsoddiad, net o dreuliau, yn fwy na chwyddiant pris (seiliedig ar yn Mynegai Prisiau Defnyddwyr) | 3½ y cant y flwyddyn |
| Hirhoedledd pensiynwyr – yn seiliedig ar dablau safonol a gyhoeddir gan yr Ymchwiliad Parhaus i Farwolaethau (tablau SAPS) gyda'r addasiadau a fabwysiadwyd ym mhrisiad Cynllun Pensiwn GIG Cymru a Lloegr fel ar 31 Mawrth 2012, a gwelliannau yn y dyfodol yn unol â'r prif amcanestyniadau poblogaeth, a seiliwyd ar ffigurau 2012, ac a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. | |

Ceir rhagor o fanylion am y dulliau a'r tybiaethau a ddefnyddir yn yr adroddiad ar yr asesiad actiwaraidd fel yr oedd ar 1 Ebrill 2014, dyddiedig 26 Mawrth 2015.

## Cyfradd cyfraniadau

Hyd at 5 Mai 2016, roedd yr aelodau yn talu cyfraniadau i'r Cynllun cyfwerth â 10 y cant o'u cyflog pensiynadwy os oeddent yn cronni budd-daliadau pensiwn ar gyfradd o un rhan o ddeugain o'u tâl pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth, neu 6 y cant o'u tâl pensiynadwy os oeddent yn cronni budd-daliadau pensiwn ar gyfradd o un rhan o hanner cant. Gan ddefnyddio'r dull a'r tybiaethau uchod, yr asesiad ar gyfer cyfraniad y cyflogwr oedd 23.8 y cant o gyflog pensiynadwy o 1 Ebrill 2015 ymlaen, sydd yr un gyfradd ag sy'n daladwy rhwng 1 Ebrill 2009 ac 1 Ebrill 2015. Mae'r gyfradd hon yn cynnwys darpariaeth lawn o ran budd-daliadau marwolaeth, gan gynnwys gwelliannau yn y budd-daliadau hyn ers i'r cynllun ddechrau, a hefyd lwfans ar gyfer costau gweinyddol.

Mae Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cyhoeddi cynigion i greu strwythur budd-daliadau newydd a ddaeth i rym ar 6 Mai 2016. Mae aelodau a oedd yn 55 oed neu'n hŷn ar 1 Ebrill 2012 yn cael eu diogelu ac yn parhau i gronni budd-daliadau ar y strwythur budd-daliadau blaenorol tan 6 Mai 2021 ac yn talu cyfraniadau o 10 y cant neu 6 y cant o'r cyflog pensiynadwy. Mae aelodau ar y strwythur budd-daliadau newydd yn talu cyfraniadau i'r Cynllun ar gyfradd o 10.5 y cant o'r cyflog pensiynadwy.

Ar ôl cyflwyno'r strwythur budd-daliadau newydd, mae'r gyfradd yr argymhellir bod y cyflogwr yn ei thalu wedi'i hailasesu ar 15.6 y cant o gyflog pensiynadwy o 6 Mai 2016 ymlaen. Dyma'r Gyfradd Gyfraniadau Safonol lawn namyn cyfraniadau'r aelodau, heb unrhyw addasiad i gael gwared ar y gwarged yn y cynllun.

## Diogelwch yr hawliau arfaethedig

Yn fy marn i, mae adnoddau'r cynllun yn debygol, o dan amgylchiadau arferol, o gwrdd â rhwymedigaethau llawn y cynllun wrth iddynt ddod yn ddyledus. Wrth fynegi'r farn hon, rwyf wedi cymryd yn ganiataol y bydd cyfraniadau'r cyflogwr a'r aelodau'n cael eu talu i'r Cynllun fel y disgrifir yn y paragraff "Cyfradd cyfraniadau" uchod ac y byddant yn destun adolygiad yn yr ystod yr asesiadau actiwaraidd nesaf.

## Yr asesiad actiwaraidd nesaf

Mae prisiad ffurfiol nesaf y Cynllun, gan yr actwari, yn cael ei gynnal gyda dyddiad gweithredol o 1 Ebrill 2017. Prif ddiben y prisiad hwnnw yw asesu a yw cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr a argymhellwyd yn ddigonol, gan ystyried yr holl ffactorau perthnasol ers y prisiad blaenorol.

**Daniel Selby**
Cymrawd Athrofa a Chyfadran yr Actiwarïaid
24 Mai 2017

Adran Actiwari'r Llywodraeth
Finlaison House, 15-17 Furnival Street
Llundain EC4A 1AB